USPG PARTNERS IN GLOBAL MISSION

# GWEDDÏO GYDA'R EGLWYS FYD-EANG

## GWEDDÏAU A MYFYRDODAU GAN Y CYMUNDEB ANGLICANAIDD O GWMPAS Y BYD




1 MEHEFIN 2025 – 29 TACHWEDD 2025



USPG yw'r asiantaeth genhadol Anglicanaidd sy'n partneru gydag eglwysi a chymunedau ar draws y byd, gan adleisio galwad Duw i fywhau ffydd, cryfhau cyd-berthynas, datgloi potensial a sefyll dros gyfiawnder. Fe'n sefydlwyd ym 1701.

Rydym yn llawen iawn i fedru cynnig y dyddiadur gweddi hwn i chi yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, fe fyddwch yn ymwybodol fod costau argraffu a phostio yn dal i gynyddu. Efallai y byddech yn hoffi ystyried gwneud cyfraniad fyddai'n helpu cyfarfod â chostau cynhyrchu'r dyddiadur gweddi hwn. Gallwch wneud hynny yma: www.uspg.org.uk/donate.

Os hoffech archebu copïau ychwanegol i'ch eglwys neu'ch cylch bach chi, gallwch gysylltu â ni drwy ymweld â www.uspg.org.uk/pray.

Mae croeso i chi ddefnyddio'r adnodd hwn ar gyfer addoliad cyhoeddus.

Cyfieithwyd i'r Gymraeg gan Noel Davies.

Daw adnodau Beiblaidd o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig (2004) oni nodir yn wahanol.

Noder nad yw barn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn yn cynrychioli safbwynt swyddogol USPG o angenrheidrwydd.

**Llun:** Tu allan i Gadeirlan y Drindod Sanctaidd yn Yangon, Myanmar. Mwy ar dud. 38-39

# CYFLWYNIAD

**Croeso i'r rhifyn newydd hwn o ddyddiadur gweddi USPG.**

Rydym yn falch o gael cynnig yr adnodd hwn i'ch cefnogi wrth ichi fyw eich ffydd. Fe glywn mor aml pa mor bwysig yw'r ddyddiadur hwn ymhlith cefnogwyr USPG, fel chi. Gellir gwneud y defnydd gorau ohono yn ystod cyfnod dyddiol o weddi a myfyrdod - neu fel rhan o oedfa yn yr eglwys. Sut bynnag y byddwch yn ei ddefnyddio, diolch am bartneru gyda ni a'r eglwys fyd-eang.

Mae'r dyddiadur gweddi hwn yn eich gwahodd i ystyried sut mae'r gwirioneddau am natur a chymeriad Duw yn dal i ddwyn gobaith a chalondid heddiw. Mae geiriau creiddiol y Credo - "Credwn" – yn adleisio drwy dudalennau'r dyddiadur hwn. Wrth i chi ei ddarllen, gadewch i wirioneddau'r Credo gryfhau'ch calon a'ch cysylltu â chredinwyr ar draws y byd sy'n rhannu'r un ffydd ddiysgog.

Cadwch lygad am fyfyrdodau gan Joyaline, sydd ar y rhaglen ieuenctid 'Pwy a ddanfonwn?' (a drefnir gan Dalaith Esgobol Jerwsalem a'r Dwyrain Canol). Mae Soshi, sy'n paratoi ar gyfer ei ordeinio yn Tokyo, a ymunodd â'r Academi i Egin Arweinyddion, hefyd yn rhannu rhai meddyliau. Fe ddewch ar draws yn ogystal ambell aelod o Gymdeithas Ysgolheigion Diwinyddol Anglicanaidd (FeAST - the Fellowship of Anglican Scholars of Theology) – sy'n cyfeirio'n gweddïau dros Sri Lanka a Zimbabwe.

Bron bob Sul, rydym yn eich cymell i ddarllen a myfyrio ar y darlleniad o'r Efengyl yn Narlleniadur Diwygiedig Cyffredin 2025 © SPCK (2024).

Pob bendith i chi dros y chwe mis nesaf.

**Rachel Weller**
Swyddog Cyfathrebu, USPG

**Y Llun ar y Clawr:** Rhai o esgobion y Chwech Affrica yn cyfarfod â yn Lesotho ar gyfer encil. Cewch ddarllen mwy ar dud 18-19.

# CYFARFOD Â'N CYFRANWYR

**Ni fyddai'r dyddiadur gweddi hwn yn bodoli heblaw am gyfraniadau a myfyrdodau meddylgar gan ein partneriaid o gwmpas y byd. Rydym yn wir ddiolchgar iddynt. Da chi, cofiwch amdanynt wrth i chi weddïo.**



## Y PARCHG RAJENDRAN RUBEN PRADEEP – FICER EGLWYS Y DRINDOD SANCTAIDD, NUWARA ELIYA, ESGOBAETH COLOMBO, EGLWYS CEYLON

Y mae'r Parchedig Ruben Pradeep yn gwasanaethu Eglwys y Drindod Sanctaidd, Nuwara Eliya, yng nghanol y planhigfeydd te ym mynydd-dir Sri Lanka. Gweithia'n agos gyda phlant ac ieuenctid cymunedau'r planhigfeydd te, gydag awydd dwfn i rannu cariad Crist drwy weithredoedd a geiriau. Mae ganddo angerdd dros ddyrchafu bywydau myfyrwyr drwy gynnig iddynt gyngor, gofal a chariad priodol, i'w helpu i dyfu i fod yn unigolion cyfrifol a thosturiol.



## JOYALINE RAJAMANI – GWEINYDDWRAIG YN EGLWYS YR YSTWYLL, DOHA, EGLWYS ANGLICANAIDD QATAR

Yn wreiddiol o fynyddoedd Kandy yn Sri Lanka ac wedi ei magu gan Eglwys y Drindod Sanctaidd, Wariyagala, nodweddwyd blynyddoedd pryfiant Joyaline gan weinidogaeth—dysgu yn yr Ysgol Sul, arwain ieuenctid, esbonio pregethau ac addurno'r eglwys ar gyfer gwyliau arbennig. 'Nawr fel gweinyddwraig yr eglwys ac ysgrifenyddes yr Offeiriad Hŷn yn Eglwys Anglicanaidd Qatar, mae rôl Joyaline yn cyfuno logisteg â ffydd, gwasanaeth, ac ymrwymiad i gynulleidfa aml-genedlaethol fawr.



## Y GWIR BARCHG ANTONIO ABLON – CAPLAN EGLWYS ANGLICANAIDD SANT CATRIN, STUTTGART, YR ALMAEN

Esgob Antonio Ablon yw Caplan yr Iglesia Filipina Independiente i bobl Ffilipino yn Ewrop a sylfaenydd y Diaspora Ecwmenaidd Ffilipino yn y Gymuned Ewropeaidd sydd wedi ei leoli ym Mrwsel, Gwlad Belg. Ddiwedd 2023, fe'i trwyddedwyd fel Caplan Eglwys Anglicanaidd Sant Catrin, Stuttgart, Yr Almaen . Dan ysbrydoliaeth ei brofiad o ymfudo o'r Pilipinas, 'nawr mae Esgob Antonio yn helpu arwain gweinidogaethau sy'n ymestyn at a chroesawu cymunedau ffoaduriaid yn Stuttgart.



## DR JO SADGROVE, YMGYNGHORYDD YMCHWIL A DYSGU USPG

'Nawr mae Jo, a ymunodd â USPG yn gyntaf fel Gwerthusydd Rhaglen, yn arwain ein gwaith ymchwil. Mae ei hymchwil yn ymestyn dros bynciau amrywiol, o ymwneud â iechyd cymunedol yn Affrica i fasnachu pobl a'r Nodau Datblygiad Cynaliadwy. Mae ei chefndir academaidd yn cynnwys daearyddiaeth a deinameg rhyw yn y Cymundeb Anglicanaidd. Ar hyn o bryd, gwasanaetha fel cymrawd ar ymweliad ym Mhrifysgol Leeds ac fel ymddiriedolwraig Sefydliad Eglwysig Leeds.

MYFYRDOD

# MEHEFIN 1 – 7

# WYTHNOS GWIRFODDOLI

**Carol Miller – Rheolwraig Ymgysylltu â'r Eglwysi, USPG**

Darllenwch 1 Corinthiaid 1:1-3

Cefais fy magu yn nhaleithiau Tenesee a Virginia yn Neheudir America. Mae'n bosibl na fyddai fy mhum chwaer wedi cytuno, ond yn ôl ein Heglwys Bresbyteraidd Ddiwygiedig leol fe'm hystyriwyd yn sant. Wedi f'achub trwy ras, wrth gwrs, ond yn sant!

Mae yna seintiau yn eich eglwys chi hefyd. Unigolion sy'n cynnig cludo pobl adre o'r eglwys bob wythnos, neu sy'n dosbarthu taflenni'r gwasanaeth ac yn croesawu ymwelwyr neu'n trefnu'r banc bwyd lleol. Gwnânt y pethau hyn am eu bod yn dosturiol a charedig, neu am eu bod ag awydd i gyfarfod ag anghenion sylfaenol a gweld cyfiawnder yn cael ei weithredu. Nid yw partneriaid USPG ar draws y Cymundeb Anglicanaidd yn wahanol. Oddi fewn i daleithiau, esgobaethau, ardaloedd cenhadol ac eglwysi mewn plwyfi lleol, mae yna saint 'ym mhob man' sy'n rhannu cariad Duw.

Cynhelir noson 'curry' flynyddol gan Eglwysi Sant Martin a Sant Jane yn Esgobaeth Bath a Wells i godi arian at USPG. Trefnodd Eglwys Sant Iago hanner marathon i godi ymwybyddiaeth o, a chefnogaeth i, Eglwysi De Asia. Trefnir taith gerdded 20-milltir flynyddol gan Eglwys Sant Richard yn Derby er budd partneriaid USPG ar draws y byd. Mae cymaint mwy o saint, yn trefnu gwerthiant cacennau, stondinau planhigion, raffl ddall, teithiau cerdded ar hyd camlesi a nosweithiau gwin a chaws. A'r cyfan er mwyn brodyr a chwiorydd nad ydynt erioed wedi eu cyfarfod, ond y maent am sefyll ochr yn ochr â nhw yn erbyn anghyfiawnder, gan gredu mewn gweithio gyda'i gilydd dros fyd lle caiff unigolion eu caru a'u derbyn a lle cânt ffynnu.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MEHEFIN 1

Darllenwch a myfyriwch ar Effesiaid 1:15-19

Arglwydd Dduw, diolch i ti am lysgenhadon USPG, sy'n ysbrydoli eglwysi a chymunedau lleol i gefnogi cenhadaeth ar draws y byd, trwy weddi, addoliad a chefnogaeth ariannol. Gweddïwn am i ti nerthu a benditihio'u gwaith.

## DYDD LLUN, MEHEFIN 2

Dduw grasol, diolch i ti am ein galw ni, yn dy drugaredd, i fod yn saint. Cymhwysa ni i fyw bywyd wedi ei lenwi â'th Ysbryd, fel y gallwn fod yn fendith i eraill.

## DYDD MAWRTH, MEHEFIN 3

Dad nefol, diolch i ti am ein galw i'th wasanaethu mewn ffyrdd bach a mawr. Gyda chalonnau addolgar, helpa ni i weld sut y gallwn fod yn oleuni i ti heddiw.

## DYDD MERCHER, MEHEFIN 4

Arglwydd, edrychwn allan ar y byd a gweddïwn am i ti ddigoni angen y rhai sy'n dioddef ansicrwydd bwyd yn eu cymunedau. Disgwyliwn wrthyt, Fara'r Bywyd. Ymrwymwn i haelioni.

## DYDD IAU, MEHEFIN 5

Dad, gweddïwn am dy adnoddau i gymunedau lle mae bod yn yr ysgol yn gryn ymdrech i rai plant, oherwydd tlodi a diffyg adnoddau. Rabbi, dwg newid, efallai drwom ni.

## DYDD GWENER, MEHEFIN 6

Ein Duw mawr, gweddïwn am dy drugaredd i bobl sy'n byw yn ein plith a wthiwyd i'r ymylon oherwydd salwch neu anabledd. Bydd yn Iachawr iddynt; helpa ni i ddangos tosturi.



## DYDD SADWRN, MEHEFIN 7

Iesu, a gerddaist yn ein plith, dwg waredigaeth i'r rhai sydd wedi'u dadleoli ac yn ceisio lloches, a'r rhai sy'n ddigartref ar ein strydoedd. Tosturia trwom ni.

# MEHEFIN 8 – 14

## PENTECOST

MYFYRDOD

**Dr Paulo Ueti – Ymgynghorydd Diwinyddol a Rheolwr Rhanbarthol dros ranbarthau cyfandir America a'r Caribi, USPG**

Darllenwch Actau 2:1-21
Yr hyn sy'n brydferth am y Pentecost yw fod yr Ysbryd wedi gwrthod breinio un iaith, neu un llais, neu un ffordd o wneud pethau, dros un arall. Fe heriodd hierarchaethau imperialaidd neu drefedigaethol y cyfnod a benderfynodd pa leisiau oedd yn bwysig. Dychmygwch synhwyro Duw yn dweud: "Mae pob llais yn bwysig. 'Rwy'n eich gweld. Mae croeso i chi fel yr ydych." Y fath wirionedd prydferth a syml!

Nid neges o gysur yn unig yw hon ond galwad i weithredu – yn ein hannog i herio anghyfiawnder a sefyll mewn solidariaeth gyda lleisiau sy'n aml yn cael eu tawelu.

Fe'n hatgoffir gan y Pentecost fod yr Ysbryd yn ocheneidio gyda'r cread (Rhufeiniaid 8:22-23). Yr un Ysbryd oedd yn hofran uwchben y dyfroedd yn y dechrau (Genesis 1) ac yn anadlu i mewn i'r ddynolryw (Genesis 2), sy'n ein nerthu ni yn awr i fynd wyneb yn wyneb â'r systemau economaidd sy'n ecsbloetio, gan ddinistrio tiroedd brodorol a chymunedau arfordirol.

Mae Pentecost yn mynd wyneb yn wyneb â systemau sy'n gwahardd hefyd. Pan ddyfynnodd Pedr broffwydoliaeth Joel – "bydd eich meibion a'ch merched yn proffwydo" – 'roedd yn herio'n uniongyrchol y strwythurau patriarchaidd sy'n tawelu lleisiau merched. Mae tywalltiad yr Ysbryd yn dileu y gwaharddiadau ar sail rhyw ac fe'n geilw ni i gydnabod a hyrwyddo arweiniad gwragedd a merched yn ein heglwysi a'n cymunedau.

Yn fwyaf radical, efallai, sefydlodd y Pentecost gymuned lle rhannwyd adnoddau'n gyfartal (Actau 2:44-45). Geilw'r Ysbryd ni i ffordd o fyw lle mae haelioni a gofal dros ein gilydd yn disodli blys ac ecsbloetio. P'un o'r rhain sy'n canu gloch gyda chi? Sut y gallech weithredu yng ngoleuni'r Pentecost?



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MEHEFIN 8 – PENTECOST

“Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthych, bydd pwy bynnag sy'n credu ynof fi hefyd yn gwneud y gweithredoedd yr wyf fi'n eu gwneud; yn wir, bydd yn gwneud rhai mwy na'r rheini, oherwydd fy mod i'n mynd at y Tad. Beth bynnag a ofynnwch yn fy enw i, fe'i gwnaf, er mwyn i'r Tad gael ei ogoneddu yn y Mab.” Ioan 14:12-13

## DYDD LLUN, MEHEFIN 9

Dad nefol, molwn di am i ti ddanfon dy Ysbryd Glân, gan gysylltu’n calonnau â thi a’u tanio â gwroldeb, gobaith a chariad at fyd mewn angen.

## DYDD MAWRTH. MEHEFIN 10

Arglwydd, helpa ni i arfer gostyngeiddrwydd, i wrando’n astud ar leisiau a dawelwyd, a chydnabod gwerth pawb.

## DYDD MERCHER, MEHEFIN 11 – GŴYL SANT BARNABAS YR APOSTOL

Arglwydd, gweddïwn am dy fendith ar Eglwys Sant Barnabas yn Limassol ac Esgobaeth Cyprus, a’r Gwlff yn gyffredinol. Boed iddynt ddilyn esiampl Sant Barnabas, Nawdd Sant Cyprus, mewn ffydd, haelioni a dyfalbarhad. Nertha nhw i rannu dy gariad a’th wirionedd â phawb.

## DYDD IAU, MEHEFIN 12 – DYDD BYD-EANG YN ERBYN LLAFUR PLANT

Dad, galarwn am y plant sy’n cael eu gorfodi i weithio. Gweddïwn am i’r drwg hwn gael ei ddileu, fel bod pob plentyn yn cael byw yn ddiogel, mewn heddwch a gydag urddas.

## DYDD GWENER, MEHEFIN 13

Ysbryd Duw, fel y gwnaethost ar ddydd y Pentecost, gwna ni’n ostyngedig, fel y gallwn agor dy air i bawb sydd am ei glywed, a bod yn llysgenhadon ffyddlon i Grist.

## DYDD SADWRN, MEHEFIN 14

Arglwydd Dduw, diolchwn i ti am waith USPG a gweddïwn am i ti fendithio’r staff gyda gostyngeiddrwydd i barchu a chroesawu lleisiau a diwylliannau amrywiol. Nertha bawb yn USPG i’th wasanaethu mewn daioni a gwirionedd.

DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# MEHEFIN 15 – 21

## CROESI'R SIANEL

**Bradon Muilenburg – Arweinydd Mudiad Cefnogaeth Anglicanaidd i Ffoaduriaid**

Cymerodd fy ngwraig a minnau y fferi i'r Deyrnas Gyfunol yn ddiweddar. Nid oedd gennym unrhyw reswm arbennig am ein taith, ond sylwasom sut oeddem yn medru gwneud y daith yn ddidrafferth iawn. Unwaith yr oeddem ar y fferi, sylwasom ar gwch llawer llai yn union tu allan i'n ffenestr. Roeddwn yn falch i weld fod y bobl ar y cwch yn gwisgo siacedi diogelwch, gan fod y rhain yn aml yn cael eu cymryd oddi arnynt gan yr heddlu. Nid oes unrhyw warant, fodd bynnag, y byddent yn goroesu'r siwrnai.

Recordiwyd mwy o farwolaethau wrth groesi'r sianel yn 2024 nag mewn unrhyw flwyddyn arall ers 1999. Mae'n bwysig cofio'r bobl hyn wrth eu henwau, os yn bosibl. 'Rwy'n meddwl yn arbennig am Rula, plentyn saith mlwydd oed Sarah, a Miriam oedd yn 40 diwrnod oed yn unig. Cofiwch mai pobl real yw'r rhain fuont fyw gan chwerthin a chwarae, breuddwydio a gobeithio. Yn drist, diffoddwyd hyn oll gan y polisïau ffiniau rhyngwladol cyfredol.



Ar drothwy Dydd Rhyngwladol Ffoaduriaid, ymunwch â mi i alaru am realaeth torcalonnus y bywydau a gollwyd tra'n ceisio diogelwch. Yn ystod yr wythnos hon, gofynnaf i chi gofio teuluoedd y rhai a fu farw. Gweddïwch drostynt, galarwch gyda nhw, ac os gallwch, cynigiwch gefnogaeth. Fel pobl o ffydd, rhaid i ni sefyll gyda nhw yn eu dioddefaint.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MEHEFIN 15 – SUL Y DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Ioan 16:12-15.
Molwch Dduw am brydferthwch y Drindod, gan fyfyrio ar ei natur fel Tad, Mab ac Ysbryd.

## DYDD LLUN, MEHEFIN 16

Arglwydd, gweddïwn am deithiau diogel, fel y gall unrhyw un sy'n ceisio diogelwch wneud hynny gydag urddas.

## DYDD MAWRTH, MEHEFIN 17

Dad nefol, rho ddoethineb a thosturi i arweinwyr gwleidyddol ac eiriolwyr dros bobl eraill. Gweddïwn am i ti eu harwain i geisio, gyda gostyngeiddrwydd, newid polisïau niweidiol.

## DYDD MERCHER, MEHEFIN 18

Arglwydd, nertha ni, dy Eglwys, i fod yn ladmeryddion pwerus dros ffoaduriaid, gan gynnig cefnogaeth a solidariaeth diysgog.

## DYDD IAU, MEHEFIN 19 – DYDD DIOLCHGARWCH AM Y CYMUN SANCTAIDD

Arglwydd Iesu, diolchwn i ti am rodd y Cymun Sanctaidd, symbol o'th gariad a'th aberth. Boed i ni gael ein nerthu yn ein ffydd, cael ein huno yn dy gorff, a chael ein grymuso i rannu dy gariad â'r byd.

## DYDD GWENER, MEHEFIN 20 – DYDD RHYNGWLADOL FFOADURIAID

Dad, ar Ddydd Rhyngwladol Ffoaduriaid, diolchwn i ti am Brandon a'i weinidogaeth flaengar yng Nghalais. Gweddïwn am i ti ei fendithio ef a'i deulu â nerth i ddyfalbarhau pan mae realiti'r sefyllfa yn anodd ei ddioddef.

## DYDD SADWRN, MEHEFIN 21

Dduw tragwyddol, rho dy dangnefedd i eneidiau'r rhai fu farw ar eu siwrnai, a boed iddynt gael eu cofio gydag pharch.

MYFYRDOD

# MEHEFIN 22 – 28

## DYDD WINDRUSH

**Rachael Anderson – Cyn Reolwraig Hŷn dros Gyfathrebu ac Ymgysylltu, USPG**

Mae Dydd Windrush yn dynodi penblwydd y dydd y cyrhaeddodd y llong Empire Windrush i Ddociau Tilbury, ar yr afon Tafwys yn Swydd Essex. Arni ’roedd cannoedd o bobl o’r Caribi oedd wedi gadael eu gwledydd yn dilyn galwad gan Brydain – eu “mamwlad” – i ddod yma i helpu ail-adeiladu gwlad a ddifrodwyd gan y rhyfel.

Er eu bod yn ymateb i alwad am gymorth, y realiti i lawer yng nghenhedlaeth y Windrush oedd fod eu bywyd newydd yn golygu dioddef gelyniaeth, gwrthodiad a hiliaeth. Er ein cywilydd, digwyddodd hyn ar strydoedd ac mewn cymunedau lle ’roedd eglwysi plwyf, a hyd yn oed wrth ddrysau eglwysi – lle dylent fod wedi teimlo croeso a theimlo’n gartrefol, lle y dylent fod wedi medru addoli Duw ochr yn ochr â Christnogion eraill. Y mae’n boenus o eironig mai Eglwys Loegr aeth â’r ffydd Anglicanaidd i’r Caribi unwaith – gan bregethu’n aml yn yr union blanhigfeydd lle daliwyd caethweision yn gaeth. Gweithred ddwbl o gael eu gwrthod.

Yn y realiti hwn, y mae’r Efengyl yn cyhoeddi gwirionedd pwerus a chymhellol: ’rydym oll yn chwiorydd a brodyr yng Nghrist, ac mae gan bawb ohonom gyfrifoldeb i sicrhau fod ein heglwysi yn fannau diogel, yn fannau o gyd-berthyn i bobl o bob gwlad ac iaith sy’n dod i’n heglwysi ni i addoli a gwasanaethu Duw. Nid mater i gynulleidfaoedd mewn eglwysi plwyf yw hyn yn unig; mae angen i Eglwys Loegr (ac, i raddau llai a mwy lleol, yr Eglwys yng Nghymru) wneud y newidiadau sefydliadol a systemig angenrheidiol i sicrhau eglwys fwy amrywiol ar bob lefel a chydnabod bod gonestrwydd agored hefyd yn allweddol i’w ffyniant yn y gymdeithas.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MEHEFIN 22 - DYDD WINDRUSH / SUL CYNTAF WEDI'R DRINDOD

Arglwydd cariadus, diolchwn i ti am gyfraniad rhyfeddol cenhedlaeth y Windrush i'n cymunedau a'n gweithleoedd, ac i'th Eglwys yn y gwledydd hyn.

## DYDD LLUN, MEHEFIN 23

Dduw Dad, galarwn am ein methiant yn y gorffennol i groesawu cenhedlaeth y Windrush, yn arbennig fod drysau eglwysi wedi eu cau yn eu hwynebau. Gofynnwn i ti ein helpu i adnabod dy Fab ym mhob wyneb a welwn, drwy'r un Iesu Grist ein Harglwydd.

## DYDD MAWRTH, MEHEFIN 24 – GENI IOAN FEDYDDIWR

Arglwydd Dduw, a addewaist i Sechareias fab yn llawn ysbryd a grym Eleias, i baratoi pobl fyddai'n barod i dderbyn yr Arglwydd: gweddïwn am gymod rhwng yr holl bobloedd. (o Eglwys Loegr)

## DYDD MERCHER, MEHEFIN 25

Dduw, gweddïwn dros ein harweinwyr a phawb sydd â grym mawr yn eu dwylo. Gweithia ynddynt i fod yn bobl sy'n ceisio lles pawb, yn fwyaf arbennig cenhedlaeth y Windrush, ac yn bobl sy'n gweithio i wneud y mannau lle maent yn llywodraethu yn gyfiawn, yn deg ac yn garedig.

## DYDD IAU, MEHEFIN 26

Arglwydd, help ni i sicrhau bob amser fod ein heglwysi yn fannau diogel, ac yn fannau noddfa a gobaith, lle caiff pawb eu croesawu, a chael mynediad i gymuned lle cânt eu hamgylchynu gan dy gariad.

## DYDD GWENER, MEHEFIN 27

Arglwydd, dyhëwn a gobeithiwn am ddyddiau gwell. Ceisiwn ac edrychwn ymlaen at gymdeithas sydd wedi'i sefydlu ar gyfiawnder a chynghanedd.

## DYDD SADWRN, MEHEFIN 28

Dad, rho i ni ysbryd o ddathlu'r bobl o'n hamgylch. Gweddïwn y bydd gobaith yn cynyddu trwy dy Ysbryd.

MYFYRDOD

# MEHEFIN 29 – GORFFENNAF 5

# ’RYDYM YN CREDU. ’RYDYM YN PERTHYN?

**Rachael Anderson – Cyn Reolwraig Hŷn dros Gyfathrebu ac Ymgysylltu, USPG**

Mae Cynhadledd Flynyddol USPG yn uchafbwynt yng nghalendr y flwyddyn i staff a chefnogwyr fel ei gilydd. Wrth i chi weddïo yr wythnos hon, bydd llawer (gan eich cynnwys chi efallai!) yn ymuno â’i gilydd am dridiau yng Nghanolfan Gynhadledd Yr Hayes yn Swanwick i wrando ar sgyrsiau ysbrydoledig, i rannu mewn gweithdai rhyngweithiol, i addoli gyda’i gilydd ac, wrth gwrs, i gael cyfle i ailgysylltu â ffrindiau newydd a hen USPG.

Thema’r gynhadledd yw “ ’Rydym yn Credu. ’Rydym yn perthyn?” ac mae’n canolbwyntio ar ddathlu 1700 mlynedd ers cytuno Credo Nicaea (325 CC) – crynodeb allweddol o’n ffydd gyffredin. Bydd cynrychiolwyr o’r Cymundeb Anglicanaidd ar draws y byd yn ystyried sut y gallwn ddyfnhau’r gymdeithas hon a’n hymrwymiad i’n gilydd ar draws amrywiaeth ryfeddol y diwylliannau, sefyllfaoedd ac ieithoedd oddi fewn i’r Cymundeb.

Byddwn yn trafod sut mae gwirioneddau creiddiol y Beibl yn ein huno ni, ond byddwn hefyd yn ystyried yn feirniadol a ydyw pobl yn teimlo’u bod yn perthyn yn yr Eglwys, yn arbennig mewn perthynas ag agweddau allweddol ar waith USPG o sefyll dros gyfiawnder – rhyw, economeg, amgylchedd a hil.

Edrychwn ymlaen at ddysgu a thyfu yn ystod ein hamser gyda’n gilydd – os na allwch ymuno â ni yn 2025 – beth am y flwyddyn nesaf?

**Am ddiweddariadau o’r gynhadledd wrth iddi ddigwydd dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol @USPGglobal.**

# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MEHEFIN 29 - GŴYL SANT PEDR A SANT PAUL, APOSTOLION/AIL SUL WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Matthew 16:13-19

## DYDD LLUN, MEHEFIN 30

Dduw Dad, gweddïwn dros yr holl staff, y siaradwyr a'r cynrychiolwyr, wrth iddynt ddod at ei gilydd i gynhadledd USPG. Gweddïwn y cânt deithio yno'n ddiogel ac y bydd eu hamser yn y gynhadledd yn canoli arnat ti, Arglwydd.

## DYDD MAWRTH, GORFFENNAF 1

Dad nefol, diolchwn i ti am ddiwrnod cyntaf y gynhadledd. Gweddïwn yn fwyaf arbennig am i ti ddefnyddio'r siaradwyr i ysbrydoli a chalonogi pawb i dyfu ar dy ddelw di.

## DYDD MERCHER, GORFFENNAF 2

Diolchwn i ti, Arglwydd, am ymddiriedolwyr USPG a'r Grŵp Ymgynghorol Traws-Gymundebol – boed i'w doethineb a'u profiad barhau i arwain gwaith USPG.

## DYDD IAU, GORFFENNAF 3 – GŴYL SANT THOMAS YR APOSTOL

Arglwydd Dduw, ar Ŵyl Sant Thomas yr Apostol, wnei di ddyfnhau ein ffydd ac adnewyddu'n galwad i'th wasanaethu di. Wrth i gynhadledd USPG ddod i'w therfyn, boed i bawb fynd ar eu ffordd gyda gwroldeb, sicrwydd ac ysbryd o undeb.

## DYDD GWENER, GORFFENNAF 4

Arglwydd, boed i eiriau dwys Credo Nicea barhau i fod yn ddyrchafol ac yn arweiniad i ni, gan ein hatgoffa ein bod, er gwaetha'n gwahaniaethau, wedi'n gwneud yn un yng nghymundeb cysegredig y ffydd.



## DYDD SADWRN GORFFENNAF 5

Diolchwn am ymrwymiad a gwaith caled staff USPG yn cynllunio, paratoi a rhedeg y gynhadledd. Rho iddynt orffwys a nerth, a chynnal nhw wrth iddynt barhau i gefnogi cenhadaeth USPG trwy gydol y flwyddyn.

MYFYRDOD

# GORFFENNAF 6 – 12
# DILYN TRAED SANT THOMAS

**Y Parchg Mark Woodrow – a Enwebwyd i USPG dros St Edmundsbury ac Ipswich gan yr Esgobion, ac Offeiriad Plwyf a Deon Gwlad yn Suffolk, Lloegr**

Darllenwch Ioan 11:1-16

Efallai ei fod yn ymddangos yn od fod Thomas yn ymateb ar ddiwedd y darn hwn, “Gadewch i ninnau fynd hefyd, i farw gydag ef.” Fel un y cafodd ei alwad i’r weinidogaeth ordeiniedig ei llunio gan gyfnod estynedig yn byw a gweithio yn India cyn cael fy ordeinio, mae parodrwydd Sant Thomas i ymuno â Iesu wrth iddo ddychwelyd i beryglon Jwdea wastad wedi fy nharo, a’i barodrwydd i fentro’i fywyd a dilyn Iesu hyd yn oed os byddai hynny’n golygu marw gydag ef.

Efallai eich bod yn gwybod i Sant Thomas farw dros ei ffydd yn Mylapore, gerllaw Chennai yn India, yn 72 OC, tua 40 mlynedd wedi’r digwyddiadau yn Jwdea. Yn ôl traddodiad, ef a ddygodd Gristnogaeth i India 30 mlynedd ynghynt.

Ers nifer o flynyddoedd bellach, bum yn arwain ymweliadau gan grwpiau bychan ar draws India. Bu’n fraint fawr i rannu â nifer o Brydain fewnweledied i’r ffydd Gristnogol oedd yn cael ei byw yn India yn bell cyn i genhadon o Brydain fynd â’r ffydd yno. ’Roedd deiliaid y ffydd hon (ac mewn llawer ffordd, mae deiliaid y ffydd hon, o hyd) yn cael eu gorfodi i fyw fel lleiafrif mewn cymdeithas o blwraliaeth. Mae India hefyd yn wlad lle mae Cristnogion, yn enwedig yn Kerala a Tamil Nadu, yn addoli mewn cymunedau sy’n medru olrhain eu ffydd eu hunain yn ôl drwy eu hynafiaid at Sant Thomas ei hunan.

I’r cymunedau hyn y dychwelais fel rhan o’m cyfnod sabothol estynedig yn ddiweddar. Ar sail fy sgyrsiau gyda nifer o Offeiriaid a gweinidogion lleyg, sylwais ar rai agweddau o weinidogaeth a heriau cymunedol y byddwn yn hoffi rhannu â chi a’u cymeradwyo fel pynciau gweddi i ni rannu â’n gilydd.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, GORFFENNAF 6 - TRYDYDD SUL WEDI'R DRINDOD

Dduw grasol, diolchwn i ti am dy holl weision ffyddlon yn eglwysi India. Bendithia'r sawl sy'n barod i roi hunan o'r neilltu, a gwrando ar dy alwad ac ymateb.

## DYDD LLUN, GORFFENNAF 7

Dduw'r holl genhedloedd, diolchwn i ti am Sant Thomas, a gludodd dy air yn wrol i India. Boed i'w wroldeb ein hysbrydoli ni i rannu dy gariad a boed i'r hadau a blannwyd ganddo barhau i ddwyn ffrwyth, gan ddwyn goleuni i bawb.

## DYDD MAWRTH. GORFFENNAF 8

Arglwydd, dygwn i'th ŵydd ein brodyr a'n chwiorydd yn India, yn arbennig y rhai sy'n cael eu herlid, sy'n dioddef ymosodiadau, neu'n cael eu lladd am eu ffydd. Dyro iddynt wroldeb, a boed i'w tystiolaeth ddisgleirio fel arwydd llachar o'th gariad diysgog.

## DYDD MERCHER, GORFFENNAF 9

Greawdwr Dduw, ysbrydola ni i fod yn stiwardiaid ffyddlon o brydferthwch India. Boed i Gristnogion gynnig arweiniad i ddiogelu ei thiroedd a'i dyfroedd, gan adlewyrchu dy gariad at y cread.

## DYDD IAU, GORFFENNAF 10

Dduw cariadus, gweddïwn dros eglwysi ar draws India. Nertha hwy mewn cyfnod o newid, llanw'r mannau gwag a adwyd gan ieuenctid sy'n ymadael, a thywys pawb sy'n dy ddilyn i ymddiriedaeth ddyfnach.

## DYDD GWENER, GORFFENNAF 11

Dduw tosturiol, bendithia bawb sy'n cynnig gofal a chefnogaeth i rai sy'n dioddef heriau gydag alcohol, cyffuriau a phroblemau eraill yn India. Boed i'th ras dorri cadwyni dibyniaeth, a dwyn gobaith ac adferiad.

## DYDD SADWRN, GORFFENNAF 12

Dad trugarog, bendithia ddwylo'r Eglwys sy'n gwasanaethu ac sy'n cynnig cymorth a gobaith. Nertha'n chwiorydd a'n brodyr i dorri cylchoedd gormesol angen, a dwyn dy gyfiawnder a'th dosturi i bawb.

# GORFFENNAF 13 – 19
# LLUNIO'R DYFODOL: CHWECH AFFRICA

DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

**Fran Mate – Rheolwraig Ranbarthol Hŷn Affrica, USPG**

Ynghynt eleni, yn fy rôl fel Rheolwraig Ranbarthol Hŷn Affrica, trefnais gyfarfod gyda Chyngor Ymgynghorol Chwech Affrica – y Ganolfan dros Arweinyddiaeth ac Ymchwil Menywod Anglicanaidd yn Affrica [the Centre for Anglican Women's Leadership and Research in Africa (CAWLRA)]. Daethom at ein gilydd ym Mhentref Diwylliannol Thaba Bosiu yn Lesotho am wythnos ysbrydoledig o feddwl a myfyrdod strategol. Ffocws yr encil, ddygodd at ei gilydd rai o'r arweinyddion benywaidd Anglicanaidd mwyaf dylanwadol yn Affrica, oedd ceisio grymuso esgobion benywaidd hŷn i arwain gyda gallu a gweledigaeth yn y blynyddoedd i ddod. Yr oedd yn bleser cael bod yng nghwmni Y Gwir Barchg Ddr Dalcy Dlamini (Esgob Eswatini), Y Gwir Barchg Filomena Teta das Neves Estevão (Esgob Bom Pastor, Angola), Y Gwir Barchg Ddr Vicentia Kgabe (Esgob Lesotho) a'r Gwir Barchg Ddr Emily Onyango (Esgob Cynorthwyol Esgobaeth Bondo, Kenya).

Er eu bod wedi methu bod yno, mae Chwech Affrica hefyd yn cynnwys Y Gwir Barchg Elizabeth Awut (Esgob Rumbek, De Sudan) a'r Gwir Barchg Rose Okeno (Esgobaeth Butere, Kenya).

Y mae cenhadaeth ysbrydoledig Chwech Affrica yn glir: Sicrhau fod gan arweinyddion Anglicanaidd benywaidd ar draws y cyfandir yr adnoddau a'r gallu i gael effaith parhaol, nid heddiw yn unig, ond ar genedlaethau'r dyfodol yn ogystal.

Mae USPG yn falch i gerdded ochr yn ochr ag Esgobion Anglicanaidd Benywaidd Chwech Affrica wrth iddynt arwain y ffordd i sefydlu a llunio dyfodol y Ganolfan dros Arweinyddiaeth ac Ymchwil Menywod Anglicanaidd. Gyda'n gilydd, gallwn barhau i hyrwyddo twf arweinyddiaeth menywod yn yr Eglwys Anglicanaidd, er mwyn sicrhau fod yr arweinyddion rhyfeddol hyn yn barod i dywys yr Eglwys i'r dyfodol.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, GORFFENNAF 13 – Y PEDWERYDD SUL WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 10:25-27

## DYDD LLUN, GORFFENNAF 14

Dduw grasol, diolchwn i ti am y cyfarfod yn Lesotho. Diolch i ti am y rhodd o gyfle i fod gyda'n gilydd, fu'n gymorth i'r esgobion a'u staff i geisio doethineb a gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Gweddïwn dros y rhai fethodd â bod yno; boed iddynt gael parhau i dyfu a chael eu sancteiddio trwy dy Air.

## DYDD MAWRTH, GORFFENNAF 15

Arglwydd cariadus, bendithia'r Ganolfan dros Arweinyddiaeth ac Ymchwil Menywod Anglicanaidd yn Affrica yn eu gwaith o alluogi a nerthu menywod i arwain gyda gallu, ffydd a thosturi. Gweddïwn y bydd y gwaith hwn yn dwyn ffrwyth parhaol.

## DYDD MERCHER, GORFFENNAF 16

Hollalluog Dduw, arwain USPG a phawb sy'n gefnogol i arweinyddiaeth menywod yn yr Eglwys, fel y gallant gerdded yn ffyddlon gyda'r rhai y maent yn eu gwasanaethu.

## DYDD IAU, GORFFENNAF 17

Dduw'r rhai sy'n cael eu herlid, dygwn i'th ŵydd y sefyllfa yn Mozambique, lle mae llawer o Gristnogion mewn braw am eu bywyd oherwydd eithafiaeth. Fel Esgob yn Eglwys Angola, nertha Esgob Filomena wrth iddi gyhoeddi dy wirionedd a thystio i'n gobaith ynot ti.

## DYDD GWENER, GORFFENNAF 18

Arglwydd Dduw, rhown ddiolch am Esgob Onyango, y ferch gyntaf i'w galw i fod yn esgob yn Eglwys Anglicanaidd Kenya, sy'n aelod o Gomisiwn Gwyddoniaeth y Cymundeb Anglicanaidd. Diolch i ti am ei hangerdd dros wyddoniaeth, yn fwyaf arbennig mewn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd brechiadau, gofal iechyd a newid hinsawdd.

## DYDD SADWRN, GORFFENNAF 19

Arglwydd Dduw, gweddïwn dros Esgob Vicentia ac Esgob Dalcy yn Eglwys Anglicanaidd Deheudir Affrica. Diolch eu bod yn arwain gydag angerdd, gan ymddiried ynot ti. Boed i lawer gael eu bendithio trwy eu gweinidogaeth.

MYFYRDOD

# GORFFENNAF 20 – 26

# AMRYWIAETH YN SARAWAK

**Y Parchg Ganon Athro Patrick Comerford – Cyn Athro Diwinyddiaeth ac offeiriad plwyf wedi ymddeol yn Esgobaeth Limerick a Killahoe, Eglwys Iwerddon**

Yn dilyn pump wythnos o deithio ar hyd a lled Esgobaeth Kuching yn nwyrain Malaysia, mae'r Canon Patrick yn ysgrifennu:

"Sarawak, ar ynys Borneo, yw'r fwyaf o 13 talaith Malaysia, yn ymestyn dros 48,000 milltir sgwâr a gyda phoblogaeth o tua 3 miliwn. Mae'r presenoldeb Anglicanaidd yn Borneo yn dyddio o 1848, pan gyrhaeddodd Thomas MacDougall i Kuching ar wahoddiad Rajah Sarawak. Adeiladwyd cangell Eglwys Gadeiriol Sant Thomas, Kuching, gan SPG (USPG) i ddynodi dolenni rhwng yr Esgobaeth ag SPG dros gyfnod o 100 mlynedd. Mae plac uwchben y ddarllenfa sy'n darllen: 'Cymdeithas Genhadol Borneo, 1908-2015. Am goffadwriaeth ohoni edrychwch o'ch cwmpas.'

Yn ystod fy arhosiad, addolais yn rheolaidd yn Eglwys Gadeiriol Sant Thomas ond euthum hefyd ar daith chwimwth o gwmpas amrywiol eglwysi a chapeli, gorsafoedd cenhadol ac ysgolion, trwy gydol Talaith Sarawak. Fe'm tywyswyd gan y Tad Jeffry, sy'n arwain eglwysi yn ardal genhadol Mambong. Roedd yn gwmni hynaws iawn. 'Roedd yn fraint gweld ei weinidogaeth a'i genhadaeth, mewn cyd-destunau trefol a gwledig. Mae Sarawak yn le o amrywiaeth cyfoethog gyda grwpiau o bobl brodorol, yn cynnwys Iban a Bidayuh, yn ffurfio bron hanner y boblogaeth.

'Roedd yn dda i mi gael gweld drosof fy hunan fod gwaith SPG ac USPG yn y gorffennol wedi arwain at esgobaeth leol wirioneddol ymgnawdoledig. Mae Sarawak mewn sefyllfa unigryw i fod yn fodel o gynghanedd a deialog rhyng-ffydd ac o amrywiaeth a chydweithrediad diwylliannol ac ethnig", meddai Patrick.



## DYDD SUL, GORFFENNAF 20 – PUMED SUL WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 10:38-42



GWEDDÏO

## DYDD LLUN, GORFFENNAF 21

Arglwydd Dduw, gweddïwn dros Eglwys Talaith Deheudir Asia, Esgobaeth Kuching, a dros weinidogaeth a chenhadaeth ei hesgobion, yn cynnwys y Gwir Barchg Danald Jute, Esgob Kuching a Brunei ers 2017.

## DYDD MAWRTH, GORFFENNAF 22 – GŴYL SANT MAIR FAGDALEN

Rhown ddiolch i ti am dystiolaeth ac addoliad dyddiol Cadeirlan Sant Thomas yn ninas Kuching ac am Ddeon Kuching, y Tra Barch Kho Thong Meng, a chlerigion a staff y gadeirlan a'r esgobaeth.

## DYDD MERCHER, GORFFENNAF 23

Gweddïwn dros offeiriaid, plwyfi ac ardaloedd cenhadol Esgobaeth Kuching, yn Sarawak a Brunei yn gyffredinol, ac yn rhannau o Kalimantan yn Indonesia.

## DYDD IAU, GORFFENNAF 24

Arglwydd Dduw, gweddïwn am Dŷ yr Ystwyll. Bendithia'r genhadaeth yn hyfforddi clerigwyr a bobl leyg. Gweddïwn hefyd am ysgolion yr esgobaeth, gan gynnwys ysgolion Sant Thomas a Sant Mair yn Kuching.

## DYDD GWENER, GORFFENNAF 25 – GŴYL SANT IAGO YR APOSTOL

Rhown ddiolch am amrywiaeth ethnig a diwylliannol Esgobaeth Kuching, a gweddïwn am i'r amrywiaeth hwn gyfoethogi bywyd cymunedau yn Sarawak a thrwy Malaysia.



## DYDD SADWRN, GORFFENNAF 26

Gweddïwn y caiff cydberthynas ecwmenaidd a deialog rhyng-ffydd yn Kuching ac yn Sarawak yn gyffredinol gael eu cyfoethogi drwy waith Esgobaeth Kuching a thrwy weinidogaeth Esgob Danald Jute, sydd newydd ei ethol yn Llywydd Cyngor Eglwysi Malaysia. Boed iddynt barhau i ddwyn dirnadaeth a gobaith newydd.



DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# GORFFENNAF 27 – AWST 2

# WEDI'N HAIL-UNO O'R DIWEDD

**Mr Raja Moses – Cydlynydd Rhaglen, Esgobaeth Durgapur, Eglwys Gogledd India**

Mae Esgobaeth Durgapur ar flaen y gad yn ymdrechion India yn erbyn masnachu mewn pobol. Y trasiedi yw fod drygioni'r fasnach hon yn gyffredin yn ein rhanbarth ni. Trwy ymdrechion wedi eu targedu ar atal, amddiffyn ac erlyn, mae'n rhaglen gwrth-fasnachu yn cael effaith arwyddocaol.

Yn ddiweddar, dechreuodd hunllef un tad pan ddychwelodd adref o'r gwaith i ddarganfod fod ei ferch ar goll. Disgrifia'r foment pan sylweddolodd beth oedd wedi digwydd fel hyn: "Chwiliais amdani ymhobman, ond nid oedd neb yn medru fy helpu i ddarganfod ble 'roedd wedi mynd. 'Roedd yn ofnadwy."

Ddiwrnodau'n ddiweddarach, cafodd alwad ffôn: " 'Roedd fy nghalon yn torri wrth i mi wrando ar fy merch yn ei dagrau ar y ffôn, mewn ofn a dychryn. Dywedodd wrthyf ei bod wedi ei herwgipio. Teimlais mor ddiymadferth."

Yn wyrthiol, 'roedd perchennog yr eiddo lle 'roedd yn cael ei dal wedi ei arswydo gan ei dioddefaint, a chysylltodd â'r tad i'w helpu i leoli ei ferch. Gyda chymorth ein tîm Gwrth-Fasnach mewn Pobl, cyflwynodd y tad gŵyn swyddogol i'r heddlu a theithiodd i achub ei ferch.

"Mae'n anodd disgrifio'r rhyddhad a deimlais o'i chael adre' gen i o'r diwedd."

**Diolch i gyfraniadau caredig gan gyfranwyr fel chi, mae'r Rhaglen Wrth-Fasnach mewn Pobol yn medru parhau i redeg. Bydd eich cyfraniadau chi yn wirioneddol drawsnewid bywydau.**

**Ydych chi â diddordeb mewn partneru gydag Eglwys Gogledd India? Ffeindiwch fwy o wybodaeth am Partneriaid mewn Cenhadaeth ar dud. 60-62 neu ymwelwch â uspg.org.uk**



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, GORFFENNAF 27 - Y CHWECHED SUL WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 11:1-13

## DYDD LLUN, GORFFENNAF 28

Dad nefol, bendithia Esgobaeth Durgapur yn Eglwys Gogledd India a phawb sy'n gweithio i ymladd yn erbyn masnachu mewn pobol. Rho iddynt ddoethineb, adnoddau a dyfalbarhad i osod dy bobl yn rhydd.

## DYDD MAWRTH, GORFFENNAF 29

Dad cariadus, dygwn i'th ŵydd bawb sydd wedi goroesi'r fasnach mewn pobol, ac sydd wedi dioddef ofn, camdriniaeth a thrawma. Dyro iddynt iachâd, adfer eu hurddas, a rho iddynt obaith am y dyfodol.

## DYDD MERCHER, GORFFENNAF 30 – DYDD BYD-EANG YN ERBYN Y FASNACH MEWN POBOL

Arglwydd, dyro ryddid i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu masnachu, iachâd i'r sawl sydd wedi goroesi, a chyfiawnder yn erbyn y rhai sydd yn ecsbloetio. Nertha bawb sy'n brwydro yn erbyn y drygioni hwn ac arwain ni i fod yn llais i'r di-lais.

## DYDD IAU, GORFFENNAF 31

Arglwydd, nertha rieni a theuluoedd y cafodd eu hanwyliaid eu dwyn ymaith. Yn eu adegau tywyllaf, rho iddynt wroldeb, gobaith, a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ddwyn eu plant adref.

## DYDD GWENER, AWST 1

Arglwydd, bendithia'r rhai – fel perchennog yr eiddo, a'r tîm gwrth-fasnachu – sy'n dod i'r adwy i helpu. Rho iddynt ddewrder i weithredu yn erbyn anghyfiawnder.

## DYDD SADWRN, AWST 2

Dduw cyfiawnder, chwala gadwyni tlodi, llwgrwobrwyo ac ecsbloetio sydd tu cefn i'r fasnach mewn pobol. Arwain gymunedau at degwch, cyfle a diogelwch i bawb.



# AWST 3 – 9
# DOETHINEB FRODOROL

## MYFYRDOD

**Dr Paulo Ueti – Ymgynghorydd Diwinyddol a Rheolwr Rhanbarthol dros ranbarthau cyfandir America a'r Caribi, USPG**

Mae gan yr Igreja Episcopal Anglicana do Brasil ymrwymiad i siwrnai sy'n cyfuno ffydd â pharch dwfn tuag at y ddaear a'i phobl, Wrth wrando ar leisiau grwpiau brodorol sydd wedi byw mewn cytgord â'r cread ers canrifoedd, caiff Eglwys Anglicanaidd Brasil ei hatgoffa – a chawn ninnau ein herio hefyd – i geisio cwlwm ysbrydol dyfnach rhwng tir, pobl a Duw.

P'un ai yn sŵn y tonnau'n torri neu mewn trydar adar, mae'r cread yn siarad! Dysgir ni gan brydferthwch y cread am bresenoldeb Duw yn y tir, y dyfroedd, a'r ffurfafen. Yn y symlrwydd hwn, fe'n dygir i wrando ar Dduw – nid â'n clustiau yn unig, ond â'n hysbryd. Fel yr esboniodd Jocabed Solano, o Grŵp Pobl Brodorol Gunadule ym Mhanama: "Y ddaear yw'r diwinydd cyntaf… mae'n datguddio Duw nid i ni yn unig, ond drwom ni hefyd."

'Rydym hefyd angen ein hatgoffa o'n cyd-gysylltiad, rhywbeth y mae'r byd cyfoes fel petai'n gyflym yn ei ddisodli gan ymdrechion i'n gyrru tuag at annibyniaeth. Fe'n hanogir gan Winston Tarere o Fiji i "ail gysylltu â rhythmau cysegredig y ddaear, y cefnfor a'r ffurfafen, gan mai'n teulu agos ydynt." Efallai bod sôn am y ddaear fel teulu yn newydd i ni, ond mae'n ddoethineb frodorol. Mae'n ein hatgoffa fod arnom angen y ddaear a'r hyn y mae'n ei roi yn ôl i ni, yn union fel y mae arnom angen ein teuluoedd a'n ffrindiau.

Felly, mae'n amlwg paham y mae Isabel Dessana, o'r bobl Desana yn yr Amazon, yn casglu fod "doethineb ein hynafiaid yn ein cynnal; dyma ffynhonnell ein gobaith." Mae'r frwydr dros y tir yn fwy na brwydr wleidyddol – mae'n un ysbrydol, yn frwydr dros hunaniaeth, dros y cwlwm cysegredig rhwng pobl a lle.

**Cadwch lygad ar agor am Apêl Gynhaeaf USPG 2025, sy'n ffocysu ar Esgobaeth Amazonia a'r angen brys am gyfiawnder amgylcheddol. Gallwch ddysgu mwy ar: www.uspg.org.uk**

# GWEDDÏO

## DYDD SUL, AWST 3 - SEITHFED SUL WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 12: 13-21

## DYDD LLUN, AWST 4

Arglwydd, agor ein calonnau i glywed dy lais yn y cread. Dysga ni i wrando ar ddoethineb y tir a'r dyfroedd, a'n chwiorydd a'n brodyr brodorol sydd wedi caru a gwerthfawrogi'r tir a'r dyfroedd dros y cenedlaethau.

## DYDD MAWRTH, 5 AWST

Arglwydd, bendithia Jocabed, Winston ac Isabel wrth iddynt lefaru dy wirionedd. Grymusa'u llais, amddiffyn y cymunedau y perthynant iddynt, ac arwain ni i sefyll gyda nhw mewn ffydd a gweithred.

## DYDD MERCHER, AWST 6 – GWEDDNEWIDIAD EIN HARGLWYDD

Arglwydd Dduw, ar y mynydd datguddiaist dy ogoniant a chyhoeddodd llais y Tad mai ti yw ei Fab. Llewyrcha dy oleuni i'n calonnau ni, trawsnewidia ni â'th bresenoldeb, ac arwain ni i adlewyrchu dy gariad yn y byd.

## DYDD IAU, 7 AWST

Dad nefol, rho i ni sicrwydd o'n cyfrifoldeb fel Cristnogion: i warchod y cread, i sefyll gyda'r gorthrymedig, i geisio cyfiawnder.

## DYDD GWENER, 8 AWST

Arglwydd, gweddïwn y bydd ein gweddïau yn codi fel arogldarth, nid mewn geiriau yn unig, ond mewn gweithredoedd, wrth i ni gerdded llwybr ffydd a chyfiawnder.



## DYDD SADWRN, 9 AWST - DYDD RHYNGWLADOL POBLOEDD BRODOROL Y BYD

Gweddïwn dros gymunedau brodorol a chymunedau a wthiwyd i'r cyrion, sy'n brwydro dros dir, hunaniaeth a pharch. Nertha nhw, Arglwydd, ac arwain ni i sefyll gyda nhw mewn solidariaeth.

MYFYRDOD

# AWST 10 – 16
# GWASANAETHU DUW YN Y GWLFF

**Joyaline Rajamani – Gweinyddwraig yn Eglwys yr Ystwyll, Doha, Eglwys Anglicanaidd Qatar**

Yng nghanol Doha, caf y fraint o wasanaethau fel Gweinyddwraig ac Ysgrifenyddes i'r Offeiriad Hŷn yn Eglwys yr Ystwyll, Eglwys Anglicanaidd Qatar. Ymestyn y rôl hon y tu hwnt i weinyddu amserlenni a logisteg – y mae'n alwedigaeth gysegredig i feithrin gofod lle mae ffydd yn ffynnu a lle mae cymuned fyd-eang o gredinwyr yn sefyll fel un teulu yng Nghrist. Mae bod yn Gristion yma yn bererindod dawel ond yn bererindod ddofn, sy'n gofyn am amynedd, doethineb ac ymddiriedaeth. Er ein bod yn lleiafrif, addolwn gydag urddas a pharch, diolch i barodrwydd grasol Qatar i ganiatáu gofod diogel inni arfer ein crefydd.

Y mae'r ardal grefyddol (a elwir y Religious Complex yn Saesneg a 'Church City' ar lafar gwlad), yn cynnwys tua 90 eglwys yn perthyn i amrywiol enwadau o Uniongred Groeg i Gatholig Rufeinig. Dyma symbol gref o gyd-fyw. Felly hefyd cynulleidfa Eglwys Anglicanaidd yr Ystwyll, sy'n cynnwys pobl o tua 57 o wledydd, gyda 300 o aelodau sy'n addoli a gweithio ochr yn ochr i'w gilydd mewn ffydd a heddwch.

Cwrs ar gyfer ieuectid ar draws y Dwyrain Canol, dan nawdd Talaith Esgobol Jerwsalem a'r Dwyrain Canol, gyda chefnogaeth USPG, yw 'Pwy a ddanfonaf?'. Fe ddihunodd y cyfnod hwn gyda'n gilydd rywbeth dwfn yn fy ysbryd, yn fy ngalw i oedi a gwrando'n wirioneddol ar Dduw. Pan oeddem yn eistedd o dan babell Abraham a Sara (Genesis 17-21), fe ddysgais am ras disgwyl. Stori am ymddiried, croesawu a chredu'n ddiysgog yn addewidion Duw yw'r stori hon. Nid gweithred yn unig yw bod yn groesawgar ond disgyblaeth ysbrydol sydd wedi llywio siwrnai fy ffydd a'm gwaith gweinyddol yn yr eglwys.



# GWEDDÏO

## AWST 10 - WYTHFED SUL WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 12:32 - 40

## DYDD LLUN, AWST 11

Dad nefol, yn nhawelwch y disgwyl, dysg amynedd i ni. Yn y weithred o groesawu, dyro i ni galonnau o letygarwch. Ac ar bob cam ar ein siwrnai, cryfha ein ffydd.

## DYDD MAWRTH, AWST 12 – DYDD RHYNGWLADOL IEUENCTID

Dad nefol, dygwn i'th ŵydd yr ieuenctid ar draws y Dwyrain Canol a gymerodd ran yn y rhaglen 'Pwy a ddanfonaf?'. Nertha a chymhwysa nhw wrth iddynt wasanaethu eu cymunedau. Llanw nhw â gwroldeb, doethineb a ffydd ddiysgog, iddynt lewyrchu d'oleuni di yn y byd.

## DYDD MERCHER, AWST 13

Arglwydd Dduw, molwn di am yr Eglwys yn y Gwlff. Diolch i ti ei bod yn ffynnu, dan rym dy Ysbryd, a bod llawer yn dod i'th adnabod di.

## DYDD IAU, AWST 14

Dduw grasol, diolch i ti am Joyaline. Dyro iddi ddoethineb, amynedd a gwroldeb i adlewyrchu cariad Crist ym mhob peth a wna. Bendithia hi fel stiward ffyddlon o'th alwad di.

## DYDD GWENER, AWST 15 - Y FENDIGAID FORWYN FAIR

Gweddïwch yng ngoleuni Luc 1:45 – "Gwyn ei byd yr hon a gredodd y cyflawnid yr hyn a lefarwyd wrthi gan yr Arglwydd."

## DYDD SADWRN, AWST 16

Dad nefol, dygwn i'th ŵydd Eglwys yr Ystwyll a holl gymunedau Cristnogol Qatar. Helpa nhw i fod yn offerynnau dy gariad, i feithrin cynghanedd a chydfyw, ac i adlewyrchu dy deyrnas ar y ddaear.



MYFYRDOD

# AWST 17-23
# ADRODD Y STORI GYFAN

**Dr Jo Sadgrove – Ymgynghorydd Ymchwil a Dysgu, USPG**

Yng ngweithdy ‘Gwneud iawn am bechodau’r gorffennol’ a gynhaliwyd yng Nghanolfan Diwinyddiaeth Ddu Rhydychen, cefais y fraint o ymuno ag arweinwyr ffydd ac ysgolheigion i feddwl am rai pynciau allweddol, gan gynnwys Diwinyddiaeth Ddu, gwynder (whiteness), a chyfiawnder atgyweiriol (restorative justice). Dan arweiniad Dr Anthony Reddie a Ms Thandi Soko de Jong, ’roedd y digwyddiad yn hyrwyddo deialog agored ac onest ar effeithiau parhaol gwladychiad, ac yn cymell ystyriaeth feddylgar o anghyfiawnderau hanesyddol a’u goblygiadau cyfoes. ’Roedd y neges yn glir: rhaid i ni adrodd y stori gyfan.

Mae cofio’r Fasnach Caethweision a’i Diddymiad yn ein gorfodi i ddwyn i gof hanes treisgar a chymhleth, na ddeallwn yn llwyr, lle bu i Eglwys Loegr (ac Eglwysi eraill), y wladwriaeth a’r frenhiniaeth, gydweithio i ennill budd ariannol o’r fasnach draws-Iwerydd mewn caethion o Affrica. Mae sylweddoli hyn yn boenus iawn i bawb.

Yn ein gwaith o gymell edifeirwch ac atgyweirio, rhaid i ni fod yn barod i dreulio amser yn y realiti anghysurus hwn. Oddi fewn i Eglwys Loegr, ac Eglwysi eraill, y mae’r traddodiad o symud yn rhy gyflym tuag at sôn am y Cristnogion oedd yn ceisio diddymu’r fasnach, yn hytrach nag oedi i feddwl am Cristnogion oedd yn cynnal y fasnach hon, wedi achosi mwy fyth o boen a sarhad, yn fwyaf arbennig i ddisgynyddion yn y Caribi. Nid yw hyn ond yn parhau’r system o drais hiliol sydd wedi’i ymgorffori yn y fasnach caethweision.

Ein galwad heddiw yw mynd ar ein gliniau wrth odre’r groes, i gofio am ddioddefaint creulon caethwasiaeth, a wnaed yn ein henw ac y bu i ni elwa arno. Yna, yn y sefyllfa anghysurus honno, gelwir ni i ddechrau ail-ddychmygu y math ar fyd ’rydym am ei drosglwyddo i’n disgynyddion.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, AWST 17 – NAWFED SUL WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 12:49-56

## DYDD LLUN, AWST 18

Arglwydd, dygwn i'th ŵydd bawb a ddioddefodd o ganlyniad i'r fasnach draws-Iwerydd, a'u disgynyddion sy'n dal i ymdopi ag chwestiynau hunaniaeth, iechyd a hiliaeth, o ganlyniad i'r fasnach. Boed iddynt ffeindio iechâd, cyfiawnder a nerth ynot ti.

## DYDD MAWRTH, AWST 19

Arglwydd, dygwn i'th ŵydd yr aelod-eglwysi Caribiaidd sydd yn y Deyrnas Gyfunol, gan gofio'r boen a achoswyd ar adeg penblwydd diddymu caethwasiaeth yn 2007. Iachâ'r clwyf a achoswyd, cryfha eu lleisiau ac arwain ni tuag at gyfiawnder a chydraddoldeb gwirioneddol i bawb.

## DYDD MERCHER, AWST 20

Arglwydd Dduw, wedi'n hysbrydoli gan waith diddymwyr caethwasiaeth ar draws y byd, gweddïwn am i ni sydd wedi medru byw mewn cyflwr o gysur a braint gael ein dwyn i fannau mewnol anghysurus, er mwyn i ni fedru myfyrio ar ein gallu i greu newid.

## DYDD IAU, AWST 21

Dad nefol, gweddïwn dros bawb sydd wedi eu dal mewn caethwasiaeth heddiw ac sy'n cael eu hecsbloetio yn eu gwaith. Dwg ryddid, urddas a gobaith i bawb sy'n dioddef, a helpa ni i fod yn llais i'r di-lais.

## DYDD GWENER, AWST 22

Arglwydd, trugarha wrth gymunedau ar draws y byd sy'n dioddef niwed amgylcheddol oherwydd ecsbloetio o ganlyniad i wladychu. Iachâ'r tir ac adfer fywydau. Dyro ddoethineb i ni fedru gofalu am dy gread a cheisio cyfiawnder.

## DYDD SADWRN AWST 23 – DYDD RHYNGWLADOL I GOFIO'R FASNACH GAETHWEISION A'I DIDDYMIAD

Dad, heddiw anrhydeddwn y bywydau a gollwyd i'r fasnach gaethweision ac ymdrechion pawb a frwydrodd dros ei diddymu. Boed i ni fyth ag anghofio'r gorffennol a boed i ni gael ein hysbrydoli i weithio am gyfiawnder, cydraddoldeb a rhyddid i bawb yn y dyfodol.

# GWEDDIO GYDA'R EGLWYS FYD-EANG



# 1 MEHEFIN 2025 – 29 TACHWEDD 2025



DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# AWST 24-30
# O DDIEITHRIAID I GYMDOGION

**Y Gwir Barchg Antonio Ablon – Caplan Eglwys Anglicanaidd Sant Catrin, Stuttgart, Yr Almaen**



Siwrnai o obaith ac ymdrech yw ymfudo. Gadawodd ymfudwyr yn Ewrop eu cartrefi er mwyn medru goroesi, i geisio cyfleoedd, diogelwch a rhyddid. Ac eto, mae'r siwrnai yn llawn heriau anferth – gwahanu, gwahaniaethiad, ansefydlogrwydd, a gwrthodiad. Dioddefa ffoaduriaid gwleidyddol, yn fwyaf arbennig, ansicrwydd dwfn wrth iddynt orfod ailadeiladu eu bywydau mewn gwledydd anghyfarwydd.

Cawn ein hatgoffa gan yr Ysgrythur fod Duw yn gofalu am y rhai sydd wedi mudo. 'Roedd yr Israeliaid yn ddieithriaid yn yr Aifft ar un adeg, ac 'roedd Iesu ei hunan yn ffoadur. Dyma ddangos fod Duw yn cerdded gyda'r sawl sydd wedi eu dadleoli. Bydd ffydd yn angor ar adegau anodd. Er bod mudwyr yn medru teimlo'n anweledig, mae Duw yn eu sicrhau: ni chawsoch eich anghofio. Y mae'n bresennol ar foment o angen, yng ngharedigrwydd dieithriaid, ac yn y nerth i ddal ati.

Fel dilynwyr Crist, fe'n gelwir i groesawu ymfudwyr, i'w cynnal, ac i sefyll gyda nhw. 'Rydym ni oll yn bererinion ar y ddaear, a chaiff gwir ffydd ei byw mewn cariad a solidariaeth. Boed i ni gofleidio'r alwad hon, gan wrando ar gri y sawl a ddadleolwyd a cherdded gyda nhw ar eu siwrnai tuag at urddas a chyfiawnder.

Diolch i gefnogaeth USPG, mae gweinidogaeth Eglwys Sant Catrin i ffoaduriaid ac ymfudwyr wedi ymestyn i gynnwys rhaglen gydgerdded (accompaniment programme) a dosbarthiadau Almaeneg sy'n anelu at helpu gyda phrosesau gweinyddol a hyrwyddo eu hintegreiddio i'r gymdeithas Almaenig.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, 24 AWST – GŴYL SANT BARTHOLOMEUS YR APOSTOL/ Y DEGFED SUL WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Deuteronomium 10:18-19, gan ystyried cariad Duw tuag at ymfudwyr.

## DYDD LLUN, AWST 25

Dduw cariadlon, cerddaist gyda'r rhai a gaethgludwyd ac a ddadleolwyd. Bydd gyda'r holl fudwyr, ffoaduriaid ac alltudion gwleidyddol, yn fwyaf arbennig y rhai sy'n brwydro yn erbyn ansicrwydd, unigrwydd a gwrthodiad. Boed iddynt ffeindio nerth yn dy gwmni di a gobaith ar eu siwrnai.

## DYDD MAWRTH, AWST 26

Dduw tosturi, cysura'r teuluoedd sydd wedi eu rhwygo am iddynt orfod mudo. Cryfha'r cadwyni cariad rhwng rhieni a phlant, gwŷr a gwragedd, a ffrindiau, a wahenir gan bellter. Boed iddynt gael eu had-uno mewn llawenydd a phrofi tangnefedd yn eu haberth.

## DYDD MERCHER, AWST 27

Dduw cyfiawnder, agor ein calonnau a'n meddyliau i groesawu'r dieithryn gyda chariad. Ysbrydola arweinwyr i greu polisïau teg sy'n parchu urddas a hawliau mudwyr a ffoaduriaid.

## DYDD IAU, 28 AWST

Dduw y siwrnai, cynnal y rhai sy'n wynebu caledi mewn gwledydd dieithr. Pan deimlant nad oes neb yn eu gweld na'u clywed, atgoffa nhw dy fod yn agos. Boed i'w ffydd fod yn noddfa iddynt, a boed iddynt ffeindio caredigrwydd gan bobl y maent yn eu cyfarfod.

## DYDD GWENER, AWST 29

Dduw trugarog, gwna dy Eglwys yn gartref i bawb, ac i'r rhai a ddadleolwyd yn fwyaf arbennig. Boed i ni fod yn offerynnau dy gariad, dy gwmnïaeth a'th eiriolaeth i'r rhai sy'n ceisio dechreuad newydd.

## DYDD SADWRN, AWST 30

Arglwydd, gweddïwn dros Eglwys Sant Catrin, yn Stuttgart, am i wirfoddolwyr o'r gymdeithas gael eu calonogi a'u hadnewyddu gan dy galon dyner a charedig.

MYFYRDOD

# AWST 31 - MEDI 6
# FFYDD SY'N GWRANDO A THYFU

**Soshi Kawashima – Myfyriwr Seminari, Esgobaeth Chubu, Nippon Sei Ko Kai (Eglwys Anglicanaidd Siapan)**

Rhannodd Soshi yn yr Academi i Arweinwyr y Dyfodol (Emerging Leaders Academy, ELA), sy'n cynnig cyfle am addysg draws-ddiwylliannol i ieuenctid o'r Cymundeb Anglicanaidd. Yma mae'n rhannu rhai meddyliau am y profiad: Mewn Ysgol Raddegion y deuthum ar draws Anglicaniaeth am y tro cyntaf. Yr hyn a'm trawodd fwyaf oedd y disgrifiad o'r Cymundeb Anglicanaidd fel 'cymundeb sy'n dal i ddehongli'. Parodd i mi feddwl am y modd y gall amrywiaeth y Cymundeb Anglicanaidd gyfoethogi neu herio ein credoau craidd.

Yn fy mywyd bob dydd, 'rwy'n ymwneud â llawer o bobl y gellid eu hystyried yn orthrymedig, megis fy nghyfeillion LGBTQ+ a gweinidogion benywaidd. Bu i'r profiad o ddod wyneb yn wyneb â nhw fy newid, gan beri i mi sylweddoli na allwn eu hanwybyddu. Heb ddiwinyddiaeth sy'n ddeinamig ac yn cysylltu â phrofiad a bywydau unigol, byddai'n diffiniad o'r hyn a olyga i fod yn Gristion yn un 'sych' iawn. Mewn gair, dylai Anglicaniaeth wrthwynebu diwinyddiaeth statig ac, yn hytrach, atgyfnerthu a chynnal unigolion.

Yn yr ystyr hon, 'roedd yr ELA yn ystyrlon i mi am i mi ddysgu am bwysigrwydd cymod (2 Corinthiaid 5:19). Wrth gwrs, mae'r materion hyn yn gymhleth, ond mae'r trafodaethau diweddar am briodas un-rhyw, fel enghraifft, yn ymddangos i mi fel cyfle arwyddocaol i ddod at ein gilydd a gwrando ar leisiau newydd ac amrywiol o wahanol rannau o'r byd. Gall pwyntiau a ystyrir yn rhai gwan fod yn rhai cryf.

Mae Anglicaniaid wedi gwerthfawrogi amrywiaeth erioed a byddant yn parhau i wneud hynny. Gorwedd ein dyfodol nid mewn gwirionedd absoliwt, ond mewn dealltwriaeth feddylgar sy'n esblygu. Rhaid rhoddi'r parch pennaf i'n hunaniaeth Anglicanaidd fel cymundeb sy'n myfyrio ar pwy ydym, ac yn ei ail-ddehongli.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, AWST 31 – UNFED SUL AR DDEG WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 14:1,7-14

## DYDD LLUN, MEDI 1

Arglwydd, iachâ glwyfau ein rhaniadau a dwg gymod i'r rhai sy'n dioddef poen a gwahanu. Boed i'th gariad di ein huno ni oll, beth bynnag yw'r gwahaniaethau rhyngom.

## DYDD MAWRTH, MEDI 2

Dduw tosturi, cysura'r sawl sydd wedi eu rhwygo am fod eraill yn eu barnu a'u cau allan. Boed iddynt ddod o hyd i nerth drwy gael eu cofleidio gennyt, a chael tangnefedd o wybod eu bod yn blant i ti.

## DYDD MERCHER, MEDI 3

Dad, boed i'th gyffyrddiad ddod â iachâd i'r rhai sy'n dioddef rhaniadau personol neu gymunedol. Arwain ni i fyw mewn undod, gan ddangos cariad a pharch at bawb.

## DYDD IAU, MEDI 4

Arglwydd Dduw, deisyfwn dy fendith ar y rhai oedd yn rhan o'r Academi i Arweinwyr y Dyfodol, sy'n dal i'th wasanaethu di ar draws y byd – o Siapan i Papwa Gini Newydd.

## DYDD GWENER, MEDI 5

Dad nefol, diolch i ti am y rhai sy'n mentora aelodau'r Academi drwy gyfarfodydd ar-lein. Gweddïwn am i ti eu nerthu a'u galluogi i galonogi eraill.



## DYDD SADWRN, MEDI 6

Arglwydd Dduw, gofynnwn am i ti amddiffyn a thywys cyfarfod yr Academi ym mis Medi eleni yn Kenya. Bendithia ac ysbrydola bawb ddaeth ynghyd i ddyfnhau eu hadnabyddiaeth ohonot ti.

DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# MEDI 7-13
# SMENTIO ETIFEDDIAETH

**Rachel Weller – Swyddog Cyfathrebu, USPG**

Sut all rhodd o ewyllys un person danio newid parhaol?

Mae gweithred ryfeddol o haelioni a gwaith caled yn dwyn ffrwyth yn Esgobaeth De Orllewin Tanganyika, sy'n rhan o Eglwys Anglicanaidd Tanzania. Uchafbwynt y prosiect uchelgeisiol hwn oedd safle sy'n cynnwys tai newydd sbon (mewn cyfadeilad dai) ac unedau masnachol, prosiect sydd â'i wreiddiau yn ymestyn ddegawdau yn ôl – i fywyd a gwaddol Ms Eira Lloyd.

Gwasanaethodd Ms Lloyd fel cenhades ac athrawes yn Tanzania am 35 mlynedd, rhwng y 40au a'r 80au. Cysegrodd ei bywyd i Eglwys Anglicanaidd Tanzania, gan weithio'n glos gydag Undeb y Mamau. Tanzania oedd ei chartref a pharhaodd ei chariad at ei chymuned ar ôl ei marwolaeth, gan iddi adael cymynrodd i'r esgobaeth, gan alluogi'r prosiect hwn i ddatblygu er cof amdani.

Yn wyneb potensial ei rhodd, aeth yr esgobaeth ati i godi arian i brynu tir, a datblygodd gynllun manwl gyda chefnogaeth USPG. Diolch i gyllid oddi wrth Eglwys y Drindod, Wall Street, ac ymdrechion lleol, daeth y weledigaeth yn realiti. Bydd yr incwm o'r 12 ystafell yn yr hostel a'r safle fasnach yn cynnal gwaith addysgol yr esgobaeth a'i gofal dros blant amddifad, merched ac ieuenctid yn y rhanbarth.

"Mae wedi cymryd cryn dipyn o gynllunio a gwaith caled i gyrraedd y fan hon. Dengys y gall hedyn bychan o wasanaeth ffyddlon ddwyn ffrwyth enfawr", meddai'r Parchg Ganon Ddr Duncan Dormor, Ysgrifennydd Cyffredinol USPG, gan gyfeirio at etifeddiaeth odidog Ms Eira Lloyd.

**Wedi'ch ysbrydoli? Ymwelwch ag uspg.org.uk i wybod mwy am adael cymynrodd.**



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MEDI 7 – DEUDDEGFED SUL WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 14:25-33

## DYDD LLUN, MEDI 8

Arglwydd, diolch i ti am fywyd a gwaddol Ms Eira Lloyd a'i gwasanaeth ffyddlon i ti yn Tanzania. Boed i'w hesiampl barhau i'n hysbrydoli ni i wasanaethu gyda chariad, ymgysegriad a haelioni.

## DYDD MAWRTH, MEDI 9

Dad, molwn di am Ddinas-micro Mji Mwema. Gweddïwn y bydd yn fendith helaeth i Esgobaeth De Orllewin Tanganyika gan gefnogi addysg a gofal lleol am flynyddoedd i ddod.

## DYDD MERCHER, MEDI 10

Dduw, diolchwn i ti am y partneriaethau a wnaeth y prosiect hwn yn bosibl. Boed i USPG barhau i gyd-weithio gyda chenhadaeth yr esgobaeth a chefnogi ei chymuned fel y caiff dy ogoniant ei adnabod.

## DYDD IAU, MEDI 11

Arglwydd, diolch i ti am yr ymgysegriad a'r gwaith caled a ddaeth â'r weledigaeth hon yn fyw. Calonoga ni i wybod fod hadau bychain yn dwyn ffrwyth mawr.

## DYDD GWENER, MEDI 12

Dad nefol, helpa ni i fod yn stiwardiaid doeth a ffyddlon o'n rhoddion ariannol, i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio i gynnal dy waith a gofalu am bawb sydd mewn angen.

## DYDD SADWRN, MEDI 13

Arglwydd, gweddïwn dros y rhai fydd yn byw yng nghyfadeilad dai Mji Mwema yn y dyfodol. Boed iddo fod yn lle diogel, sy'n cynnig ymdeimlad o gymuned a thyfiant.



DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# MEDI 14-20

# SEFYLL MEWN SOLIDARIAETH GYDA'R EGLWYS YM MYANMAR

**Rachael Anderson – Cyn Reolwraig Hŷn dros Gyfathrebu ac Ymgysylltu, USPG**

Yn ddiweddar, ymwelodd y Parchg Ganon Dr Duncan Dormor, Ysgrifennydd Cyffredinol USPG a'r Parchg Davidson Solanki, Rheolwr Hŷn dros Asia a'r Dwyrain Canol, USPG, â Myanmar (Burma) i gynnig solidariaeth i'n chwiorydd a'n brodyr. Fel y gwyddom, mae Myanmar yn ymgodymu â rhyfel sifil hir a chymhleth iawn. Pwerau sy'n wrthwynebus i'r llywodraeth sy'n rheoli dwy ran o dair o'r wlad, ac amcangyfrifir bod tair miliwn o bobl wedi eu gorfodi o'u cartrefi, gan ffoi o un rhanbarth i'r llall i geisio diogelwch.

Er gwaetha'r cythrwfl a'r ansicrwydd, mae'r Eglwys yn dal i wneud gwaith eithriadol – yn arbennig ym maes addysg. Ym mhob esgobaeth, mae arweinwyr ymroddedig yn cynnal prosiectau addysg, sy'n cynnig nid ysgolion yn unig ond addysg mewn diwinyddiaeth ac iechyd hefyd.

Mae'r gwaith hanfodol hwn yn wynebu heriau sylweddol. Deellir gan USPG fod gorfodaeth filwrol (conscripsiwn) i fechgyn 18 oed, a ddaeth yn ddeddf yn ddiweddar, yn golygu fod llawer o ieuenctid yn chwilio am gyfleoedd dramor er mwyn osgoi mynd i ryfel – weithiau yn groes i ddymuniad eu cymuned. Mae perygl fod hyd yn oed athrawon a myfyrwyr diwinyddol yr Eglwys ei hun yn cael eu gorfodi i wasanaeth milwrol hefyd.

“Roedd yn fraint unigryw i gael cyfarfod â Thŷ'r Esgobion Eglwys Talaith Myanmar,” meddai'r Parchg Davidson Solanki. “Cawsom gynnig iddynt gefnogaeth a phartneriaeth ar yr adeg anodd hon. Yn wyneb y fath anawsterau, buom yn dystion i dosturi a gwroldeb anhygoel. Fe'n cyffyrddwyd yn ddwfn gan y cariad a'r croeso a ddangoswyd i ni gan chwiorydd a brodyr Eglwys Talaith Myanmar.”



GWEDDÏO

## DYDD SUL, MEDI 14 – DYDD Y GROES SANCTAIDD / Y TRYDYDD SUL AR DDEG WEDI'R DRINDOD

Heddiw, dygwn i'th ŵydd Goleg Diwinyddol y Groes Sanctaidd yn Yangon, yr unig ysgol Feiblaidd yn Eglwys Talaith Myanmar. Ynghanol cythrwfl ac ansicrwydd, gweddïwn iddo fedru parhau i hyfforddi arweinwyr ffyddlon, uno dy Eglwys, a bod yn fodd i'th oleuni di lewyrchu.

## DYDD LLUN, MEDI 15

Arglwydd cariadlon, gweddïwn dros ein chwiorydd a'n brodyr ym Myanmar – am eu dyfalbarhad a thros eu gwaith yn ymestyn allan a dwyn gobaith i'w cymunedau. Boed iddynt ddal i fod yn arwyddion llachar o'th oleuni di.

## DYDD MAWRTH, MEDI 16

Dduw Dad, gweddïwn dros y Parchedicaf Stephen Than Myint Oo, Archesgob Myanmar ac Esgob Yangon, a holl Esgobion, clerigwyr a gweithwyr Eglwys Talaith Myanmar. Rho iddynt nerth ac ymroddiad i fugeilio dy bobl.

## DYDD MERCHER, MEDI 17

Arglwydd, diolch i ti am genhadaeth Eglwys Talaith Myanmar i sicrhau addysg a lloches ddiogel i blant. Boed i ymdrechion athrawon a staff ddal i ddwyn gobaith a chyfleoedd i'r plant.

## DYDD IAU, MEDI 18

Dduw cyfiawnder a heddwch, dygwn i'th ŵydd arweinwyr Myanmar. Tro eu calonnau at gyfiawnder a heddwch, er mwyn iddynt lywodraethu gyda thegwch a thrugaredd (Diarhebion 21:1)

## DYDD GWENER, MEDI 19

Dduw Dad, rho dangnefedd i'th Eglwys ym Myanmar. Amddiffyn gredinwyr sydd wedi'u dadleoli, cyflenwa eu hanghenion a iachâ eu clwyfau.

## DYDD SADWRN, MEDI 20

Dad nefol, helpa ni i weddïo'n ddi-baid dros ein chwiorydd a'n brodyr mewn gwledydd o gwmpas y byd lle mae erlid Cristnogion ar gynnydd. Diolch i ti eu bod yn dilyn Iesu heb gyfri'r gost. Helpa ninnau i wneud yr un fath.

MYFYRDOD

# MEDI 21-27
# IESU MALAYIAHA: Y CYD-DDIODDEFWR

**Y Parchg Rajendran Ruben Pradeep, Ficer Eglwys Y Drindod Sanctaidd, Nuwara Eliya, Esgobaeth Colombo, Eglwys Ceylon**

Hoffwn sôn wrthych am ‘bobl anghofiedig’ Sri Lanka. Daethpwyd â’r Malaiyaha Makkal, neu gymunedau’r planhigfeydd te, i’r wlad yn gyntaf gan Brydain ym 1823, fel gweithwyr oedd yn gaeth i gontract. Yn y 200 mlynedd ers hynny, cyfrannodd y gymuned hon yn sylweddol i economi Sri Lanka. Ac eto, maent yn derbyn cyflogau isel, yn dioddef problemau iechyd ac nid oes ganddynt adnoddau addysg na thrafnidiaeth digonol. Cafodd y Malaiyaha Makkal eu twyllo gan yr awdurdodau, ac nid oes ganddynt unman i’w alw’n gartref.

Yn fy ngweinidogaeth, gwelaf ddioddefaint cymunedau’r planhigfeydd ac mae’n fy atgoffa o Iesu: Iesu Malaiyaha, yr un sy’n cyd-ddioddef â gweithwyr y planhigfeydd. Wedi ei ddirmygu a’i wrthod, heb le i roi ei ben i lawr. Meddyliaf am ddwylo briwedig y gweithwyr, wedi eu sychu yn y gwres, wedi oriau hir o dynnu dail te. Maent yn fy atgoffa o’r clwyfau ar ddwylo Iesu. Meddyliaf am y basgedi trwm mae’r gweithwyr yn eu cario ar eu cefnau, gyda rhwymyn am eu pen i ddwyn y pwysau. Mae’n fy atgoffa o Iesu’n cario’i groes a’r goron ddrain oedd ar ei ben.

Ar y penblwydd yn 2023, ymunais mewn taith goffa. Gwnaethom ail-ddilyn y daith o dros 200 cilometr a ddioddefodd y gymuned Tamil pan fu’n rhaid iddynt gerdded o arfordir gogleddol Mannar yr holl ffordd i fynyddoedd Matale. Yn yr un modd ag y bu’r ecsodus Beiblaidd dros y canrifoedd, bu ein taith ni yn fodd i dalu teyrnged i’r gorffennol a galw am ddyfodol mwy cyfartal a theg. Fy ngweddi yw y bydd Iesu Malaiyaha yn rhoi gobaith i’r briwedig.

**Mae’r Parchg Ruben yn rhan o Gymdeithas Ysgolheigion Diwinyddol Anglicanaidd USPG (FeAST - Fellowship of Anglican Scholars of Theology) – rhwydwaith o ysgolheigion gyda phersbectif newydd ar ddiwinyddiaeth. Am fwy o wybodaeth ewch i: uspg.org.uk/feast**



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MEDI 21 – GŴYL SANT MATHEW, APOSTOL AC EFENGYLYDD / Y PEDWERYDD SUL AR DDEG WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Mathew 9:9-13

## DYDD LLUN, MEDI 22

Gadewch i ni weddïo dros yr holl weithwyr mewn planhigfeydd te sy'n gweithio'n ddiflino ym mhob tywydd. Boed i Dduw eu hamddiffyn rhag pigiadau gwenyn, ymosodiadau gan nadroedd, a dod wyneb yn wyneb ag anifeiliaid gwyllt.

## DYDD MAWRTH, MEDI 23

Gadewch i ni weddïo dros ferched sy'n gweithio mewn planhigfeydd te, sy'n dioddef caledi a diwrnodau gwaith hir. Boed i Dduw eu hiachau, adfer eu hurddas a dwyn iddynt obaith.

## DYDD MERCHER, MEDI 24

Gadewch i ni weddïo dros ieuenctid sydd wedi mynd ar grwydr oherwydd yr heriau y maent wedi eu hwynebu. Boed i Dduw, mewn trugaredd diddiwedd, eu tywys yn ôl i'r llwybr cywir, llenwi eu calonnau â gobaith, a'u arwain tuag at fywyd o bwrpas a chyfiawnder.

## DYDD IAU, MEDI 25

Gadewch i ni weddïo dros blant y planhigfeydd sy'n dioddef salwch, tlodi a cham-drin. Diolchwn i Dduw am yr athrawon a'r ysgolion da yn y cymunedau, a gofynnwn am iddynt gael eu hamddiffyn a derbyn gofal.

## DYDD GWENER, MEDI 26

Arglwydd, rhown ddiolch am Eglwys Ceylon a'i gwasanaeth ffyddlon, yn dwyn gobaith a chariad i bawb mewn angen. Bendithia'i gwaith a nertha bawb sy'n gwasanaethu ynddi yn dy enw.

## DYDD SADWRN, MEDI 27

Dad nefol, diolch i ti am roi i'r Parchedig Reuben galon i weithio ymhlith cymunedau'r planhigfeydd. Rho iddo nerth, doethineb a thosturi wrth iddo wasanaethu dy bobl.



MYFYRDOD

# MEDI 28 – HYDREF 4
# UN FFYDD: LLAWER LLAIS

**Rachel Weller – Swyddog Cyfathrebu USPG**

I nodi 1700 mlynedd ers Cyngor Nicea, mae USPG wedi creu fideo unigryw sy’n dangos Cristnogion ar draws y byd yn adrodd Credo Nicea yn eu hieithoedd eu hunain. Mae’r casgliad yn cynnwys siaradwyr Twi, Bengali, Portiwgaleg, Cymraeg, a ffurfiau amrywiol o Saesneg a siaredir gan gredinwyr o’r Dwyrain Canol, Zambia ac Ynysoedd Solomon.

Yn ddiddorol, mae’r prosiect wedi dangos tebygrwydd yma ac acw yn yr ieithoedd gwahanol a siaradwn. Er enghraifft, y term Arabaidd am Ysbryd Glân yw ar-rūḥ al-qudus - الرُّوح الْقُدُس - sy’n debyg iawn i Roh Kudus yn Iban, iaith frodorol ym Malaysia, a hynny oherwydd dylanwad Islam. Yn yr un modd, y mae’r term Hebraeg rúakh hakódesh (רוּחַ הַקֹּדֶשׁ) yn debyg iawn – arwydd clir o dreftadaeth y crefyddau Abrahamaidd a’u hieithoedd. Yn y Pilipinas, mae espíritu santo mewn Tagalog yn adlewyrchu’r un term mewn Sbaeneg, gan danlinellu fod y gwladychu gan Sbaen wedi gadael etifeddiaeth barhaol.

Felly, tra bod hanes, diwylliant a hyd yn oed y dreftadaeth wladychol, wedi cael dylanwad ar ein hieithoedd, nid ydynt wedi creu rhaniadau yn hanfodion ein ffydd. Er ein bod yn swnio’n wahanol, mae’r neges ganolog yn dal yr un. Peth prydferth yw medru cyhoeddi gyda’n gilydd “Credwn mewn un Duw, un ffydd, un bedydd”.

’Nawr gwyliwch a gwrandewch ar Gredo Nicea fel na chlywsoch erioed o’r blaen. **Ar gael ar YouTube @USPGglobal.**



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, MEDI 28 – PYMTHEGFED SUL WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 16:19-31

## DYDD LLUN, MEDI 29 – GŴYL SANT MIHANGEL A'R HOLL ANGYLION

O Duw, roddaist i ni Ŵyl Sant Mihangel a'r Holl Angylion, amddiffyn a thywys ni. Boed i ni, gyda chymorth lluoedd y nef, sefyll yn gadarn yn y ffydd a dal yn gryf yn dy wasanaeth.

## DYDD MAWRTH, MEDI 30 – DYDD RHYNGWLADOL CYFIEITHU

Ar y dydd hwn, gweddïwn dros bawb sydd wedi cysegru eu doniau i'r gwaith o gyfieithu'r Beibl, a'r rhai sy'n ceisio sicrhau parhad ieithoedd brodorol. Arglwydd, bendithia'i hymdrechion, er mwyn i fwy a mwy ddod i glywed a deall newyddion da Iesu Grist yn eu hiaith eu hunain.

## DYDD MERCHER, HYDREF 1

Arglwydd, diolchwn i ti am y rhai sydd wedi traddodi'r ffydd a chyhoeddi dy ffyddlondeb di, o genhedlaeth i genhedlaeth.

## DYDD IAU, HYDREF 2

Dduw grasol, diolch i ti am bresenoldeb Cristnogion yn y Dwyrain Canol sy'n ymddiried yng ngwaith grymus dy Ysbryd Glân - *ar-rūḥ al-qudus*.

## DYDD GWENER, HYDREF 3

Arglwydd Dduw, wrth i ni fyfyrio ar hanes Cyngor Nicea, adnewydda ni o'r newydd â'r gwirioneddau prydferth am bwy wyt ti.

## DYDD SADWRN, HYDREF 4

Dad, diolch i ti nad wyt wedi dy gaethiwo gan iaith ac y gall pawb ddod i'th adnabod di.



MYFYRDOD

# HYDREF 5-11

## CYNHWYSIAD ANABLEDD YN ZIMBABWE

**Makomborero Bowa – Darlithydd yn Adran Athroniaeth, Crefydd a Moeseg Prifysgol Zimbabwe**

Wedi i'm brawd gael ei anafu'n ddifrifol, deuthum yn rhwystredig ynglŷn â diffyg darpariaeth ar gyfer pobl gydag anabledd, yn fwyaf arbennig yn yr Eglwys. Mewn egwyddor, mae llywodraeth Zimbabwe yn un o'r mwyaf 'anabledd gyfeillgar' yn y byd, gyda Pholisi Anabledd Cenedlaethol gyda'r gorau yn y byd, a lansiwyd yn 2021. Ond y gwir yw fod y realiti ymarferol ar lawr gwlad yn wahanol iawn, ac mae llawer yn profi gwaharddiad cynyddol ac yn dioddef yn gymdeithasol o ganlyniad i dlodi, realiti sy'n cynnwys eglwysi hefyd.

Credaf fod yn rhaid i'r rhwyg rhwng polisi ac arfer gael ei datrys gan newid agwedd. Fe fethodd polisi. 'Rydym angen ateb gwell, ac y mae'r ateb gan yr Eglwys eisoes! Pan edrychwn ar fywyd Iesu, gwelwn nifer o enghreifftiau o gynhwysiant anabledd. Meddyliwch mor wahanol fyddai pethau pe byddem yn angori'n gweithgarwch yn esiampl Iesu ac yn cael ein hysbrydoli gan y ffaith ein bod ni oll wedi'n llunio ar ddelw Duw.

Nid oes unrhyw synnwyr mewn addasu adeiladau heb newid agweddau – y mae'n rhagrithiol. Ein harweinwyr eglwysig sydd â'r gallu allweddol i drawsffurfio pethau, a thrwy eu cymell hwy gallwn oll arwain y ffordd tuag at greu cymuned gynhwysol. Mae ganddynt yr awdurdod moesol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r math ar ddyfodol blaengar a chynhwysol sydd yn neges Crist. Fy ngweledigaeth i ar gyfer y Cymundeb Anglicanaidd yw proses o hunan-fyfyrdod sy'n peri i bobl feddwl: "Beth ydym wedi ei wneud a beth nad ydym wedi ei wneud?" Mae gennym amser o hyd i gywiro'n camgymeriadau. Gwaredigaeth yw calon holl neges Crist. Gallwn eto wneud y peth cywir.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, HYDREF 5 – UNFED SUL AR BYMTHEG WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 17:5-10

## DYDD LLUN, HYDREF 6

Arglwydd, maddau i ni pan fyddwn wedi cam-drin eraill. Helpa ni i lawenhau dy fod wedi gwneud pawb ar dy ddelw di.

## DYDD MAWRTH, HYDREF 7

Dad nefol, ysbrydola ni i feddwl am ffyrdd fydd yn wirioneddol drawsnewid ein heglwysi a'n cymunedau i fod yn fannau sy'n adlewyrchu dy gariad ac yn croesawu pawb.

## DYDD MARCHER, HYDREF 8

Arglwydd, gweddïwn na fydd polisïau anabledd Zimbabwe a gwledydd eraill yn ddim ond geiriau ar bapur, ond y cânt eu gweithredu'n effeithiol, gan ddwyn newid gwirioneddol, a dymchwel ffiniau sy'n dal i gau allan bobl ag anabledd.

## DYDD IAU, HYDREF 9

Arglwydd, nertha Bowa yn ei ymdrechion i hyrwyddo cynhwysiad pobl ag anabledd. Boed i'w lais gael ei glywed ac i'w waith ysbrydoli eraill i weithredu yn eu cymunedau.

## DYDD GWENER, HYDREF 10

Diolch i ti, Arglwydd Iesu, am y modd yr wyt yn cynnig i ni fodel perffaith o ofal a thosturi.

## DYDD SADWRN, HYDREF 11

Dad, helpa ni i gael ein huno fel Corff Crist, er mwyn sicrhau fod dy Eglwys yn lle y caiff pawb eu cynnwys.

**Mae Bowa yn rhan o Gymdeithas Ysgolheigion Diwinyddol Anglicanaidd USPG (FeAST). Am fwy o wybodaeth ewch i: uspg.org.uk/feast**



# HYDREF 12-18
# BYWYD WEDI EI YMGYSEGRU I OFALU


DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

**Y Chwaer Gillian Rose – Ysbyty Cenhadol Bollobhpur, Eglwys Bangladesh**

Symudodd y Chwaer Gillian Rose, sydd ’nawr yng nghanol eu hwythdegau, o Loegr i Bangladesh yn 1964, pan yr adnabyddid y wlad fel Dwyrain Pakistan. Mae wedi cysegru ei bywyd byth wedyn i wasanaethu Ysbyty Cenhadol Bollobhpur yn Kushtia, yng ngorllewin Bangladesh. Bu’n llythyru USPG yn rheolaidd gyda’r newyddion diweddaraf.

Mewn llythyr diweddar, disgrifiodd y Chwaer Gillian yr Ysbyty fel “gwerddon bychan o dangnefedd”, lle mae staff yn byw a gweithio mewn cytgord â’i gilydd, beth bynnag am eu cefndir crefyddol neu wleidyddol. Mewn gwlad a nodweddir gan wrthdaro gwleidyddol, mae’n llawenhau o weld grŵp amrywiol o fyfyrwyr nyrsio – Cristnogion, Hindŵaid, Mwslimiaid a Bwdhyddion – yn byw a gweithio ochr yn ochr â’i gilydd. “Bydd y staff yn cyfarfod yng nghapel yr ysbyty bob bore i ganu a gweddïo am heddwch, yn y gobaith y bydd rhyfeloedd a gwrthdaro yn dod i ben ar draws y byd.”

Yn ogystal â chynnig gofal meddygol, mae’r Ysbyty hefyd yn cynnig cynhaliaeth ysbrydol. Bydd staff yn ymweld â phentrefi cyfagos dair gwaith yr wythnos, yn cynnig gofal iechyd, gweddïau, a’r sacramentau i’r sawl sy’n eu dymuno. Yng ngeiriau’r Chwaer Gillian, “Fy ffydd yw sail popeth a wnaf, a ffydd yw sylfaen gwaith yr Ysbyty hefyd. ’Rydym yn ysbyty Cristnogol, ac mae’n gwasanaeth yn dystiolaeth Gristnogol yn y gymuned.”


We pray every morning in our hospital chapel together,
for peace to come to the world, that wars and
unrest should cease in every place, and that
everyone live in their homes, and bring up their children,
live their lives in peace and security

# GWEDDÏO

## DYDD SUL, HYDREF 12 – AIL SUL AR BYMTHEG WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 17:11-19

## DYDD LLUN, HYDREF 13

Dduw Dad, diolch i ti am weinidogaeth anhygoel y Chwaer Gillian. Bendithia ac amddiffyn hi er mwyn dy enw.

## DYDD MAWRTH, HYDREF 14

Gweddïwn dros bawb sy'n dioddef afiechyd, am iddynt gael ffeindio iachâd a chysur yn dy gariad.

## DYDD MERCHER, HYDREF 15

Arglwydd, gweddïwn gyda staff Bollobhpur am dangnefedd yn ein calonnau ac yn ein byd, fydd yn dod â rhaniadau i ben ac yn dwyn undod. Arwain ni oll i fyw mewn cytgord, beth bynnag yw'n ffydd neu'n cefndir.

## DYDD IAU, HYDREF 16

Dad, diolchwn am y bartneriaeth fu rhwng USPG, Ysbyty Cenhadol Bollobhpur ac Eglwys Bangladesh ar hyd y blynyddoedd. Nertha'r bartneriaeth hon a bendithia hi, er mwyn dy ogoniant.

## DYDD GWENER, HYDREF 17 – DYDD RHYNGWLADOL DROS DDILEU TLODI

Arglwydd Dduw, nid tlodi yw dy fwriad di. Gweddïwn am ddiwedd i dlodi yn ei holl ffurfiau, fel y caiff pawb fyw gydag urddas a gobaith.

## DYDD SADWRN HYDREF 18 – GŴYL SANT LUC YR EFENGYLYDD

Arglwydd, diolchwn i ti am esiampl Sant Luc, iachäwr a gwas i'th air. Boed i ni, fel Sant Luc a'r Chwaer Gillian, wasanaethu eraill gyda thosturi a gofal, gan gynnig iechyd i'r corff yn ogystal â chysur ysbrydol i bawb mewn angen.



MYFYRDOD

# HYDREF 19-25
# HYRWYDDO ADDYSG DDIWINYDDOL I WRAGEDD IFANC YN AFFRICA

**Esmeralda (Essie) Pato – Cadeirydd Grŵp Ymgynghorol Traws-Gymundebol USPG. Wedi ei lleoli yn Johannesburg, De Affrica**

Ymrwymodd USPG i fynd ati i ymegnïo’r Eglwys drwy fuddsoddi mewn arweinyddion Anglicanaidd ar gyfer y dyfodol trwy addysg ddiwinyddol. Mae’n gyffrous i ni gael cyflwyno’r Ysgoloriaeth Addysg Ddiwinyddol i Fenywod Ifanc, sy’n galluogi merched ifanc ar draws Affrica i ddod yn arweinyddion ac i wasanaethu eu cymunedau.

Ar ddechrau’r tymor, ymunodd Essie gyda’r myfyrwyr ar ddiwrnod cyntaf y tymor yng Ngholeg y Gweddnewidiad, coleg diwinyddol Anglicanaidd yn Makhando, De Affrica, a gydnabyddir yn fyd-eang. Yno cyfarfu â thair a dderbyniodd ysgoloriaeth: Y Parchg Rachel Moshanah, Esgobaeth Namibia, Miss Sinesipho Zokhwe, Esgobaeth Mbhashe a Mrs Maponoane Ponoane, Esgobaeth Lesotho. ’Roedd y tair yn teimlo’n gyffrous ar ddechrau’r tymor newydd.

“’Roedd yn anrhydedd i mi gael cynrychioli USPG fel partner y coleg. Yn dilyn anerchiad gan y Rheithor, Y Parchg Canon Ddr Percy Chinganga, croesawyd y myfyrwyr newydd gan gyn-fyfyrwyr drwy iddynt eu helpu i wisgo’u casogau. ’Roedd y weithred hon yn dangos beth yw neges Iesu i glerigion sy’n cael eu trwytho: ’rydych yn dod i wasanaethu ac nid i gael eich gwasanaethu. Cafodd y myfyrwyr newydd eu sicrhau eu bod yn perthyn, a bod ganddynt yr holl gefnogaeth yr oedd angen arnynt ar gyfer y flwyddyn o’u blaen.

Yn fy sgyrsiau gyda myfyrwyr, fe’m trawyd gan eu hoptimistiaeth a’u heiddgarwch. ’Roedd llawer yn ymddangos yn obeithiol ac yn barod i ddysgu. ’Roedd yn amlwg nad lle dysgedig yn unig yw’r athrofa; y mae’n fan lle gall ffydd, gwasanaeth ac arweinyddiaeth dyfu – gan lunio arweinyddion ar gyfer Eglwys yfory.”

# GWEDDÏO

## DYDD SUL, HYDREF 19 – Y DEUNAWFED SUL WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 18:1-8

## DYDD LLUN, HYDREF 20

Arglwydd, gweddïwn dros Y Barchg Rachel Moshanah, Miss Sinesipho Zokhwe, Mrs Maponoane Ponoane, a'r holl fyfyrwyr, a'u cyfnod o hyfforddiant yng Ngholeg y Gweddnewidiad. Boed i'w haddysg gryfhau eu ffydd a'u donio i wasanaethu dy bobl gyda doethineb a gras.

## DYDD MAWRTH, HYDREF 21

Dduw grasol, dygwn i'th ŵydd Goleg y Gweddnewidiad, y Rheithor, Dr Percy Chinganga, a'r staff a'r myfyrwyr i gyd. Boed i'r coleg barhau i fod yn le o ddysgu, o dyfu ac o ffurfiant ysbrydol, lle gall arweinyddion y dyfodol gael eu meithrin mewn ffydd a gwasanaeth.

## DYDD MERCHER, HYDREF 22

Dad nefol, diolch i ti am rodd merched mewn diwinyddiaeth, Boed i'w lleisiau a'u harweiniad lywio dyfodol dy Eglwys ac ysbrydoli eraill i'w dilyn.



## DYDD IAU, HYDREF 23

Arglwydd, diolch i ti am ymrwymiad USPG i fuddsoddi mewn addysg ddiwinyddol. Bendithia bawb a gefnogir drwy'r ysgoloriaethau, fel y byddant yn tyfu mewn gwybodaeth a ffydd i wasanaethu dy deyrnas.

## DYDD GWENER, HYDREF 24 – DYDD Y CENHEDLOEDD UNEDIG (80 MLYNEDD ERS EI SEFYDLU)

Arglwydd Dduw, heddiw diolchwn i ti am y Cenhedloedd Unedig a'i rôl hanfodol yn hyrwyddo heddwch, datblygiad cynaliadwy a hawliau dynol. Tywys y cenhedloedd a'u harweinyddion tuag at gydweithrediad, tosturi a chyd-ddeall.

## DYDD SADWRN, HYDREF 25

Arglwydd, bendithia Essie wrth iddi arwain Grŵp Ymgynghorol Traws-Gymundebol USPG. Dyro iddi ddoethineb a nerth wrth iddi dywys ein cenhadaeth, gan ysbrydoli eraill i wasanaethu'n ffyddlon.

MYFYRDOD

# HYDREF 26 – TACHWEDD 1

# RHWYMAU ANWYLDEB

**Rachel Weller – Swyddog Cyfathrebu, USPG**

Beth sy'n gyffredin rhwng clerigion yn y Deyrnas Gyfunol ac yn India? Beth yw'r gwahaniaethau? A sut allai'r undod hwn mewn amrywiaeth ysbrydoli'r ddau grŵp?

Dyma'r cwestiynau a ysbrydolodd y Parchg James Dwyer, ficer Christ Church, Flackwell Heath yn Swydd Buckingham, i ddyfeisio'r syniad o Gymdeithas Glerigion, trwy gynllun 'Rhwymau Anwyldeb' USPG. Daeth y syniad o greu grŵp ar-lein rhwng clerigion y Deyrnas Gyfunol ac India iddo yn dilyn ymweliad ag Esgobaeth Nandyal, Eglwys De India, a chyfres o sgyrsiau cyfoethog yng Nghynhadledd USPG yn 2024. Y nod yw dyfnhau cydberthynas rhwng clerigion ar draws y ddau ranbarth, gan gydnabod y deuai cyfoeth o gyd-ddysgu mewn meysydd megis diwinyddiaeth, ecclesioleg ac astudiaethau cenhadaeth. Mae'r ensyniad sy'n sail i Rhwymau Anwyldeb yn adlewyrchu bwriad i ofalu dros ei gilydd, bod yn dosturiol tuag at ei gilydd, ac awydd i uno wrth fod ynglŷn â gwaith Duw.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd ffocws Rhwymau Anwyldeb ar wrando a dysgu, er mwyn creu gofod lle gall trafodaethau diwinyddol, syniadau am genhadaeth, gofal bugeiliol, a gweddi, ddod yn fyw. Tra mai ar-lein fydd y cyfarfodydd yn y lle cyntaf, mae gennym freuddwydion mawr am gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb yn y dyfodol – naill ai yn ystod cynadleddau USPG neu trwy gyfnewid, fyddai'n anhygoel, rhwng India a'r Deyrnas Gyfunol – er mwyn adeiladu rhwymau dyfnaf o gymdeithas rhyngom.

# GWEDDÏO

## DYDD SUL, HYDREF 26 – Y PEDWERYDD SUL AR BYMTHEG WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 4:16-24

## DYDD LLUN, HYDREF 27

Arglwydd, diolchwn i ti am 'Rhwymau Anwyldeb'. Gweddïwn am i glerigion yn y Deyrnas Gyfunol ac India ddysgu drwy bersbectif unigryw ei gilydd a dyfnhau'r ymrwymiad i'r gwaith sy'n gyffredin rhyngddynt.

## DYDD MAWRTH, HYDREF 28 – GŴYL SANT SIMON A SANT IAGO, APOSTOLION

Hollalluog Dduw, a adeiladaist dy Eglwys ar sylfaen yr apostolion Simon ac Iago, dyro i ni ras i ddilyn eu hesiampl mewn ffydd ddiysgog a thystiolaeth feiddgar, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

## DYDD MERCHER, HYDREF 29

Bendithia'r Parchg James Dwyer, a'r rhai sy'n cyfranogi yn Rhwymau Anwyldeb. Boed i'w weledigaeth o gydberthynas a chydweithio dyfnach flodeuo yn dy enw.

## DYDD IAU, HYDREF 30

Gweddïwn am ddoethineb a dirnadaeth i'r grŵp sy'n ceisio llywio cwrs drwy heriau gweithio ar draws diwylliannau a chyd-destunau gwahanol, er mwyn iddynt fedru adlewyrchu dy gariad a'th wirionedd.

## DYDD GWENER, HYDREF 31

Dad, gweddïwn y caiff y grŵp gyfarfod wyneb-yn-wyneb un diwrnod er mwyn i rwymau anwyldeb gael eu cryfhau.

## DYDD SADWRN, TACHWEDD 1 – DYDD YR HOLL SAINT

O Dduw, wyt wedi gwau dy bobl ynghyd mewn un cymundeb a chymdeithas, dyro i ni ras i ddilyn esiampl yr holl saint, fel y cawn ein cymhwyso i gyfrannu yn dy deyrnas nefol.



DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH

# TACHWEDD 2-8
# O UNIGEDD I GYSWLLT

**Ljudmila – Ffoadur o Wcrain sy'n byw yn Budapest, Hwngari**

Mudiad annibynnol ar lywodraeth yw Cam Nesaf Hwngari (Next Step Hungary) sy'n cynnig ymyriadau cost-effeithiol i gefnogi integreiddio ffoaduriaid yn Hwngari. Mae'n partneru ag Eglwys Sant Margaret, Budapest, a estynnodd allan at ffoaduriaid fel rhan o'r apêl ar y cyd dros Wcrain rhwng USPG ac Esgobaeth Ewrop. Mae Cam Nesaf yn achubiaeth i rai fel Ljudmila.

"Fel person o Wcrain yn byw yn Budapest, 'roedd fy mywyd yn llawn dop o gyfrifoldebau – gofalu am fy mab 12 mlwydd oed, gofalu am fy rhieni, a hyd yn oed y gath – tra'n ceisio cadw cydbwysedd yn fy ngyrfa heriol fel pensaer. Er gwaethaf fy niddordeb angerddol dros gelf a dylunio ar hyd fy mywyd, 'roedd y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn straen emosiynol a seicolegol. 'Roedd unigrwydd yn pwyso'n drwm arnaf, ac 'roedd neilltuo amser i greadigrwydd yn ymddangos fel afradlondeb na allwn ei fforddio.

Yna, ar ddiwedd yr haf, fe wneuthum gofrestru ar gyfer gweithdy gleiniau (beading) 'roedd Cam Nesaf yn ei gynnal. Nid oeddwn yn sicr beth i'w ddisgwyl, ond o'r sesiwn cyntaf oll 'roedd yn amlwg fod hwn yn fwy na dosbarth crefft. 'Roedd yn gymuned groesawgar, yn ofod bywiog i ferched, oedd yn llawn chwerthin a chefnogaeth, a lle gallem fod yn greadigol gyda'n gilydd. Gyda chyfarwyddyd athrawes arbennig iawn, fe gwblheais fy modrwy gleiniog gyntaf a gwelais bosibiliadau diddiwedd am brosiectau newydd.

'Roedd pob dosbarth yn uchafbwynt fy wythnos, yn ofod lle gallwn ail-gysylltu â mi fy hun ac ag eraill. Nid sgiliau newydd y dysgodd y gweithdy hwn i mi yn unig – ond cafodd fy llawenydd, fy nghreadigrwydd, fy ymdeimlad o berthyn, eu hail-gynnau hefyd. Ac am hyn, rwy'n wir ddiolchgar i Cam Nesaf."



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, TACHWEDD 2 – YR UGEINFED SUL WEDI'R DRINDOD / DYDD YR HOLL ENEIDIAU

Dduw gobaith, dyro i ni, a phawb a gredodd ynot, fod yn un mewn gwybodaeth gyflawn o'th gariad a gweledigaeth ddigwmwl o'th ogoniant; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen. *(Llyfr Gweddi ar gyfer Awstralia. 1995)*

## DYDD LLUN, TACHWEDD 3

Arglwydd, Dduw tangnefedd, gweddïwn am i ti ddwyn heddwch i Wcráin, fel y gall teuluoedd fel teulu Ljudmila, fyw heb ofn a chael eu hail-uno mewn diogelwch a chariad.

## DYDD MAWRTH, TACHWEDD 4




Arglwydd Dduw, diolchwn i ti am groeso prosiectau fel Cam Nesaf Hwngari, a'r gwirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i gynnal mannau i fod yn greadigol.

## DYDD MERCHER, TACHWEDD 5

Dad, gweddïwn am i ti adfer gobaith i bawb sy'n teimlo'n flinedig ac ar goll mewn lleoedd anghyfarwydd.

## DYDD IAU, TACHWEDD 6

Arglwydd, bendithia bawb fel Ljudmila sy'n ailadeiladu eu bywydau mewn gwledydd newydd, ymhell o gartref. Boed iddynt ffeindio cyfeillgarwch, pwrpas ac ymdeimlad o berthyn.

## DYDD GWENER, TACHWEDD 7

Dad, gweddïwn am weinidogaeth Eglwys Sant Margaret wrth iddi geisio bod yn oleuni drosot ti yn Budapest. Diolch fod ffordd dy gariad di yn cael ei harddangos trwy ddrysau agored yr eglwys.

## DYDD SADWRN, TACHWEDD 8

Arglwydd tangnefedd, gweddïwn y bydd dy dangnefedd yn llanw'r byd, gan gyfannu rhaniadau a dwyn undod. Boed i Gristnogion ym mhob man ymrwymo i fod yn weddigar, gan adlewyrchu dy gariad a rhannu dy dangnefedd gydag eraill.

# TACHWEDD 9-15

# COP30

## MYFYRDOD

**Laura D’Henin-Ivers – Prif Weithredwraig Gobaith am y Dyfodol**

Darllenwch a myfyriwch ar Salm 24

Ar Dachwedd 10, mae COP30 yn dechrau yn Brasil, gan ddynodi moment hollbwysig ar ein taith fel dynolryw tuag at ofalu am gread Duw. Mae cynhesu hinsawdd yn bygwth y mwyaf bregus – megis cymunedau sy’n wynebu lefelau’r mor yn codi a ffermwyr sy’n dioddef sychder. Fel Cristnogion, fe’n gelwir i weddïo a gweithredu, a bod yn eiriolwyr dros gyfiawnder a chynaladwyedd.

Geilw’n ffydd ni i weithredu – yn union fel y bu i’r proffwydi lefaru yn erbyn anghyfiawnder, felly rhaid i ninnau godi’n lleisiau dros y ddaear. Mae stiwardiaeth yn gyfrifoldeb cysegredig. Trwy godi’n lleisiau, byw’n gynaliadwy a bod yn obeithiol, ’rydym yn ymgorffori’n cariad at Dduw a chymydog.

Yn Gobaith am y Dyfodol, credwn mewn cydweithio gyda’r sawl sy’n gwneud y penderfyniadau, gyda golwg ar weithredu amgylcheddol beiddgar. Mae gan gymunedau ffydd rôl unigryw, fel sefydliadau dibynadwy, rhannau creiddiol o wead cymdeithas, yn lleol a chenedlaethol, sydd hefyd yn cynnig arweiniad moesol. Pan godwn ein lleisiau dros gyfiawnder amgylcheddol, caiff ein neges ei ehangu, gan ei gwneud yn fwy anodd i arweinwyr ei hanwybyddu. Gyda’i gwreiddiau mewn gwerthoedd cyffredin, mae eiriolaeth a yrrir gan ffydd yn creu newid ystyrlon.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, TACHWEDD 9 – SUL Y COFIO / UNFED SUL AR HUGAIN WEDI'R DRINDOD

“Oherwydd gwn fod fy amddiffynnwr yn fyw, ac y saif o'm plaid yn y diwedd.” Job 19:25

## DYDD LLUN, TACHWEDD 10

Dduw’r Creawdwr, ymddiriedaist y byd prydferth hwn i’n gofal. Maddau i ni am y ffyrdd ’rydym wedi camddefnyddio’i roddion a methu ag amddiffyn ei ryfeddodau. Ysbrydola ni i fod yn stiwardiaid ffyddlon, gan drysori’r tir, y dyfroedd a’r holl greaduriaid sy’n rhannu’r cartref hwn â ni.

## DYDD MAWRTH, TACHWEDD 11

Dduw cyfiawnder, dygwn i’th ŵydd y rhai sy’n cyhoeddi’r gwir i’r rhai pwerus, yn COP30 a thu hwnt. Rho ddewrder i arweinwyr ac ymgyrchwyr sy’n ymroi dros bolisïau sy’n gwarchod ein planed. Boed i’w gwaith adlewyrchu dy gyfiawnder a’th ddoethineb.

## DYDD MERCHER, TACHWEDD 12

Dduw trugarog, cofiwn ein brodyr a’n chwiorydd sy’n dioddef canlyniadau dinistr ecolegol. Cysura’r rhai a ddadleolwyd, cynnal y rhai sydd wedi colli eu bywoliaeth, a dwysbiga’n calonnau i sefyll mewn solidariaeth â nhw.

## DYDD IAU, TACHWEDD 13

Ysbryd Glân, cynhyrfa’th Eglwys i fod yn llais proffwydol yn yr argyfwng hinsawdd. Boed i ni gofleidio ein galwedigaeth i herio anghyfiawnder, gofalu am y cread ac arwain drwy esiampl wrth inni fyw’n gynaliadwy. Cryfha’n ffydd wrth i ni weithio dros fyd cyfiawn a llewyrchus.

## DYDD GWENER, TACHWEDD 14

Dduw doethineb, gweddïwn dros y rhai mewn swyddi o awdurdod sy’n gwneud penderfyniadau yn COP30 a thu hwnt. Dyro iddynt galonnau sy’n clywed cri’r ddaear a’i phobl. Boed iddynt gyrchu polisïau sy’n amddiffyn y mwyaf bregus ac yn parchu cyfanrwydd y cread.

## DYDD SADWRN, TACHWEDD 15

Arglwydd grasol, pan fydd yr ymdrech hon yn ein llethu, adnewydda’n gobaith. Atgoffa ni fod pob gweithred fach o ofal – pob coeden a blannir, pob llais a godir, pob ymdrech i leihau gwastraff – yn cyfrannu at dy waith achubol di yn y byd. Cryfha ein penderfyniad i gerdded yn ffyddiog a gweithgar.

# TACHWEDD 16-22

# YNG NGHYSGOD Y CARNEDDAU

## MYFYRDOD

**Y Parchedicaf Andrew John – Cyn-Archesgob Cymru**

Wrth i mi ysgrifennu, ’rwy’n syllu ar gopaon y Carneddau wedi eu gorchuddio ag eira. Mae Carnedd Dafydd a Charnedd Llewelyn yn codi’n serth i bron 3,500 troedfedd, gan gynnig prydferthwch a her, hyd yn oed os nad ydynt mor ddramatig â’r Wyddfa. Cynrychiola’r brigiadau anferth hyn rai o’r tirweddau mwyaf syfrdanol yn y wlad. Fodd bynnag, y mae newid hinsawdd yn golygu na allwn bellach warantu gweld eira ar y copaon. Mae patrymau’r tywydd yn newid, mae’n amlwg, wedi ei achosi’n bennaf gan weithgareddau’r ddynolryw.

Deallodd y Salmydd natur ddeinamig y byd: “Gosodaist y ddaear ar ei sylfeini, fel na fydd yn symud byth bythoedd; …dan dy gerydd di (bu i’r dyfroedd ffoi), gan sŵn dy daranau ciliasant draw…” (Salm 104:5-7). A ydyw’n bosibl fod yr awdur wedi rhagweld amser pan y byddai’r ddaear yn newid mewn modd sy’n niweidio bywyd?

Tra bod Cristnogion yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng y ddaear a’i Chreawdwr, mae’r Ysgrythurau hefyd yn dangos fod perthynas glos rhwng Duw a’r cread cyfan. Mola’r ddaear Dduw trwy ei phrydferthwch, ei hegni a’r grym bywydol sydd ynddi.

Dylai’r ddealltwriaeth hon ein gwneud hi’n benderfynol i warchod cyfanrwydd y cread. Wrth i COP30 gyfarfod, gadewch i ni wneud penderfyniadau sy’n adlewyrchu’n cyfrifoldeb i gynnal bywyd a gwarchod yr amgylchedd, gan ddefnyddio’r wybodaeth sydd gennym i lunio dyfodol iachach i bawb.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, TACHWEDD 16 – YR AIL SUL AR HUGAIN WEDI'R DRINDOD

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 21:5-19

## DYDD LLUN, TACHWEDD 17

Edrychwch o'ch cwmpas. Rhowch ddiolch am ryfeddod y Cread a'i rym i gynnal bywyd.

## DYDD MAWRTH, TACHWEDD 18

Gweddïwch dros bob gwyddonydd ac ymchwilydd sy'n ein helpu i ddeall heriau newid hinsawdd.

## DYDD MERCHER, TACHWEDD 19

Gweddïwch am ddewrder a doethineb i'r rhai sydd mewn diwydiannau sy'n llygru, iddynt fedru newid er gwell gam wrth gam.

## DYDD IAU, TACHWEDD 20

Gweddïwch dros eich gilydd ac am stiwardiaeth dda o'n hadnoddau gwerthfawr.

## DYDD GWENER, TACHWEDD 21

Gweddïwch dros y gwledydd a'r bobl sy'n fwyaf tebygol o deimlo effeithiau newid hinsawdd.

## DYDD SADWRN, TACHWEDD 22

Gweddïwch am i weledigaeth yr Eglwys gael ei chryfhau, fel na fyddwn yn ddi-rym, ac y gallwn wneud yn 'anhraethol well na dim y gallwn ni ei ddymuno na'i ddeisyfu'.



Llun: Mynyddoedd y Carneddau gan Robert J Heath

MYFYRDOD

# TACHWEDD 23-29

# CYFIAWNDER RHYWEDD

**Rachael Anderson - Cyn Reolwraig Hŷn dros Gyfathrebu ac Ymgysylltu, USPG**

Ers ei lansiad 30 mlynedd yn ôl, llwyddodd yr Ymgyrch 16 Diwrnod Fyd-eang (o Tachwedd 25 i Rhagfyr 10) ddwyn ynghyd dros 6000 mudiad ar draws 185 gwlad, gan gyrraedd dros 300 miliwn o bobl yn y frwydr yn erbyn trais ar sail rhywedd. Deuthum ar ei draws yn gyntaf pan oeddwn yn gweithio i fudiad menywod ar lawr gwlad, dros wyth mlynedd yn ôl, ac ’ rwy’n falch bod USPG yn ychwanegu ei lais at yr ymgyrch. Mae’r fenter ‘16 diwrnod’ yn galluogi USPG i gryfhau ei ymrwymiad i gyfiawnder rhywedd, codi ymwybyddiaeth, a myfyrio ar y camau a gymerwyd gan ei bartner eglwysi tuag at ddod â thrais ar sail rhywedd i ben.

Fodd bynnag, y mae’r ymgyrch yn dal i fynd, gan fod cymaint o waith i’w wneud o hyd yn y frwydr yn erbyn trais as sail rhywedd. Mae’r 16 diwrnod yn rhoi cyfle i ni ystyried y trais ar sail rhywedd sy’n digwydd ar draws y byd ac ystyried hefyd ein hymateb fel Cristnogion, i fynnu atebolrwydd, a gweithio tuag at ddiwedd i’r trais hwn, a gwahaniaethiad ymhob rhan o fywyd. Gan ein bod yn cael ein galw i “alaru gyda’r sawl sy’n galaru” (Rhuf 12:15), ni all gweithredu effeithiol ddigwydd heb empathi. Ac eto, nid yw galaru ynddo’i hun yn ddigon – fe’n gorfodir gan ein ffydd i weithredu, a gwneud gwahaniaeth go iawn ym mywydau menywod a merched sy’n dioddef anghyfiawnder.

Yn ystod yr 16 diwrnod hyn, ’rwy’n eich cymell nid yn unig i feddwl am y materion hyn, ond i edrych o fewn eich cymunedau chi am ffyrdd i gynnig cefnogaeth ymarferol i rai a oroesodd y trais hwn a chodi llais dros ddiweddu gwahaniaethiad.



# GWEDDÏO

## DYDD SUL, TACHWEDD 23 – GŴYL CRIST Y BRENIN / SUL CYN ADFENT

Darllenwch a myfyriwch ar Luc 23:33-43

## DYDD LLUN, TACHWEDD 24

Dduw Dad, gweddïwn am i bawb ddilyn esiampl Crist o drin menywod yn gyfartal ac urddasol. Gweddïwn am fyd lle mae cyfiawnder a heddwch yn teyrnasu, a lle nad yw rhywedd person yn gwneud dioddef camdriniaeth yn fwy tebygol bellach.

## DYDD MAWRTH, TACHWEDD 25 – DYDD RHYNGWLADOL DROS DDILEU TRAIS YN ERBYN MENYWOD

Gweddïwn y bydd yr Ymgyrch 16 Diwrnod eleni yn sbarduno llywodraethau, eglwysi a chymunedau ar draws y byd i gymryd sylw ac i gefnogi diwedd i drais ar sail rhywedd.

## DYDD MERCHER, TACHWEDD 26

Gweddïwn y bydd eglwysi ar draws y byd yn cynnig arweiniad i'w cymunedau i roi cefnogaeth i hawliau menywod a merched.

## DYDD IAU, TACHWEDD 27

Arglwydd, gweddïwn am i waith menywod sy'n cynnal ein heglwysi a'n cymunedau gael ei gydnabod yn llawnach.

## DYDD GWENER, TACHWEDD 28

Rhowch ddiolch am fywydau menywod ar draws y byd, lle na chaiff cysondeb eu presenoldeb ei gydnabod bob amser.

## DYDD SADWRN, TACHWEDD 29

Edrychwn ymlaen at oes o heddwch, pan fydd trais wedi ei wahardd, lle gall dynion a menywod garu a chael eu caru, a lle caiff gwaith a chyfoeth y byd ei rannu'n gyfiawn.



**Llun: Stopiwch Drais yn erbyn Menywod – grŵp sy'n ymgyrchu yn Esgobaeth Lusaka, Zambia.**

PARTNERS IN MISSION

# GWASANAETHWCH EICH TEULU EGLWYSIG BYD-EANG



## BANGLADESH

Iechyd a maeth




## BRASIL

Brwydro yn erbyn stigma HIV ac AIDS



## EWROP

Cefnogi ffoaduriaid



## GOGLEDD INDIA

Gwrthwynebu masnachu pobl



## SRI LANKA

Ynysrwydd a diffyg cyfleoedd



## TANZANIA

Atal HIV ac AIDS



# ZULULAND, DE AFFRICA

## GERDDI BWYD A GWYDNWCH

## “ ’RWY’N HAPUS FY MOD YN MEDRU DARPARU AR GYFER FY MHLANT A’M BOD WEDI MAGU YMDEIMLAD O HUNAN-WERTH.”

### ASTUDIAETH ACHOS: MAM’JABU

’Roedd Mam’Jabu yn dibynnu ar ei gŵr a’i deulu am bopeth, yn cynnwys bwyd, siopa, ffïoedd addysg a dŵr. Ar ôl marwolaeth ei gŵr, ’roedd yn ymdrech i ddarparu gofynion sylfaenol ar ei chyfer ei hunan a’i phlant. Gall hyn fod yn dorcalonnus i unrhyw riant. Fe roddodd Asiantaeth Datblygiad Esgobaeth Masinakekelane dir nad oedd yn cael ei ddefnyddio, er mwyn i’r gymuned fedru dysgu ffermio yn ogystal â chael defnyddio’r tir i ffermio. Trwy’r rhaglen, ’roedd Mam’Jabu yn medru gwneud cyfraniad. Medrai fwydo ei theulu, ond yn fwy na hynny, ’roedd ganddi fusnes oedd yn ei galluogi i ddarparu ar gyfer ei phlant heb orfod dibynnu ar neb arall. Bellach mae ei bywyd yn haws.

Mae'r rhaglenni yn ymateb i anghenion sylfaenol ac, felly, mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth yw effaith eich cyfraniadau.

Pan fyddwch yn gwneud cyfraniadau cyson:

- Bydd 100% o'ch cyfraniad yn mynd at y genhadaeth a ddewiswch
- Cewch wybodaeth reolaidd am y gwaith gwerthfawr 'rydych yn cyfrannu ato
- Cewch wybodaeth am ofynion gweddi penodol yn y rhanbarth
- I wybod mwy, mae croeso i chi wahodd rhywun i siarad â'ch eglwys neu'ch cymuned

# I WYBOD MWY

WWW.USPG.ORG.UK/PARTNERS-IN-MISSION

PARTNERS IN MISSION

# PRAYER DIARY

## Thank you for praying with the World Church.

If you don't regularly receive the USPG prayer diary, we'd love for you to join with us in prayer.

☐ **Yes,** I want to pray with the World Church.
☐ **Yes**, I want to receive the e-newsletter.
☐ **Yes**, I want to receive the supporter magazine.

**Your details:**

Title...........First name .......................................Surname ...........................................

Address ........................................................................................................................

.....................................................................................................................................

Town/City .........................................................................Post code............................

Tel ..................................................Email ...................................................................

## Data protection

### Keeping in touch

USPG would like very much to keep you updated on our work and that of our partner churches and communities worldwide. Managing your details well is important to us and we would like to contact you in ways that work for you.

☐ **Yes,** I am happy to be contacted by email.
We may contact you by post and telephone. If you do not wish to hear from us or have a preferred contact method, simply get in touch with us at **info@uspg.org.uk**

When you give us your details, you'll be added to our secure database so we can communicate with you as you have indicated. You can read our full data privacy notice at **www.uspg.org.uk/privacy**

Please return to: **USPG, 5 Trinity Street, London SE1 1DB**
Call **020 7921 2200** or visit **www.uspg.org.uk**

**USPG**
5 Trinity Street London
SE1 1DB

020 7921 2200

info@uspg.org.uk
www.uspg.org.uk/pray
@USPGglobal

ISSN 2631-4959
Registered charity number: 234518